

ECO'R WYDDFA

Rhif 255

EBRILL 1999

Pris 30c

Pen-blwydd Hapus



Llongyfarchiadau mawr i Mrs Annie Williams, Meillionydd, Penisarwaun ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 100 oed ar Fawrth 20fed. Do, fe ddaeth y telegram o Lundain, ac roedd bwndel mawr o gyfarchion, blodau a rhoddion i'r wraig arbennig hon. Yn hanu o bentref bychan, clôs, Rhiwlas treuliodd y rhan fwyaf o'i bywyd ym Mhenisarwaun. Mae'n amlwg fod awyr iach Rhiwlas a Phenisarwaun yn go arbennig! Bu'n ddiwrnod o ddathlu mawr i deulu Meillionydd — dathlu canfed pen-blwydd mam, nain a hen nain. Mae pentrefwyr Penisarwaun a'ch holl gyfeillion yn y fro yn falch o'ch cyfarch ar yr achlysur arbennig hwn, Mrs Williams. Pen-blwydd hapus i chi.

Cwch ar y Llyn

Mae cynllun ar y gweill i gael cwch pleser ar Lyn Padarn. Bwriada'r ddau sy'n ceisio caniatâd i drefnu'r teithiau ddefnyddio 'Seren y Wyddfa', cwch 42 troedfedd o hyd sy'n cario 52 o deithwyr. Byddai'n teithio rhwng Llanberis a'r Gilfach Ddu ac yna, ar ochr Dinorwig, ryw dri chwarter hyd y llyn ac yn ôl.

Mae Cymdeithas Pysgotwyr Seiont, Gwryfai a Llyfni, sydd â hawliau pysgota ar ran helaeth o'r llyn, yn gwrthwynebu'r cynllun gan fynnu y byddai'n effeithio ar ei hawliau. Mae Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn cefnogi'r cais, ond ei wrthwynebu a wna Cyngor Cymuned Llanberis. Dadlau mae cynghorwyr Llanberis y gallai'r ddwy lanfa newydd a gâi eu codi ar lannau'r llyn fod yn beryglus os byddai plant yn cael eu denu i chwarae arnynt uwch dŵr dwfn y llyn. Ofnir hefyd y gallai cwch o'r maint hwn fod yn beryglus i'r bobl sy'n defnyddio cychod bychan yn ystod y tymor ymwelwyr, o gofio bod y rhelyw o'r rhain yn ddibrofiad wrth drin cwch. Roedd cynghorwyr Gwynedd yn trafod y mater ddiwrnod cyhoeddi'r *Eco*.



Anfarwoli Gerallt



Cynhaliwyd cyfarfod arbennig yng Nghaernarfon yn ddiweddar i ddadorchuddio'n swyddogol gerflun diweddaraf Mr John Meirion Morris, Brynrefail. Erbyn hyn mae'r cerflun o'r Prifardd Gerallt Lloyd Owen yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Dyma'r pumed 'pen' o waith John Meirion Morris i'w drosglwyddo i ofal y Llyfrgell. Yr unig biti yw na fydd y cerflun arbennig hwn yn cael ei arddangos yn barhaol yno fel bod pawb yn gallu gwerthfawrogi'r gwaith celfydd.

Siop Newydd



Agorwyd siop newydd yn gwerthu ffrwythau, llysiau a bwydydd iach yn hen siop STAR ar Stryd Fawr Llanberis ganol mis Mawrth, a phenderfynodd y perchennog, Marian Evans, adfer hen enw'r siop. Bu Marian yn reolwraig yn Siop Joe Brown yn Llanberis am rai blyneddodedd cyn iddi symud o'r ardal. Bu'n cadw busnes am rai blyneddodedd yn Sbaen ond wedi dychwelyd i Gymru a chartrefu yn Llanfairfechan sylweddolodd, o siarad ag amryw o hen gyfeillion, yn Llanberis fod angen siop ffrwythau yn y pentref erbyn hyn. Mae'n dda gweld siopau'n agor yn hytrach nag yn cau, a dymunwn yn dda i'r busnes newydd.

Ceir ar y Mynydd

Bydd angen i'r awdurdodau cynllunio lleol ystyried cais arall a allai fod yn un sensitif dros ben. Mae cwmni o ogledd Lloegr, Northern Cable Company, yn awyddus i adeiladu system ceir-cebl rhwng Rhyd-ddu a chopar Wyddfa. Wrth annerch cyfarfod o fusnesau lleol sy'n ymwneud â'r diwydiant ymwelwyr dywedodd Mr Peter Harrison fod gan ei gwmni brofiad helaeth o redeg systemau o'r fath yn yr Alban ac ar y Cyfandir.

Er mai darparu cario pobl sy'n sgîo y mae'r ceir-cebl mawr hyn fel arfer, mae Northern Cable yn credu y gallai addasu'r system i gario ymwelwyr i fyny ac i lawr yr Wyddfa brofi'n broffidiol iawn. Rhoddodd Mr Harrison sicrwydd i'r cyfarfod na fyddai'r polion a'r gwifrau yn ddolur i'r llygaid a bod y cwmni eisiau cynnig ffordd newydd i fwynhau'r golygfeydd naturiol ysblennydd. Dim ond hanner awr fyddai'r ceir-cebl yn ei gymryd i deithio o Ryd-ddu i'r copa a byddai pob car yn cario 40 o bobl. Eisoes mae pryder ynglŷn â'r datblygiad a llawer o'r farn mai'r holl sylw a roddwyd i werthu rhan o'r Wyddfa sydd wedi denu'r datblygwyr diweddaraf hyn i'r ardal.

ECO'R WYDDFA

Rhif 255
1 EBRILL 1999

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD COPI	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU A
MAI	EBRILL 19	EBRILL 29	DEINIOLEN	Mr W. O. Roberts
MEHEFIN	MAI 17	MAI 27	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts Williams
GORFFENNAF	MEHEFIN 21	GORFFENNAF 1	BETHEL	Mr Geraint Ellis
AWST	—	—	—	—
MEDI	AWST 23	MEDI 2	DINORWIG	Miss Marian Jones
HYDREF	MEDI 20	MEDI 30	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans
TACHWEDD	HYDREF 18	HYDREF 28	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans
RHAGFYR	TACHWEDD 20	RHAGFYR 2	CAEATHRO	Mr Clive James

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Ann Cumberton,
Gwastadnant (870356)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, EBRILL 29

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, EBRILL 19

Os gwelwch yn dda

Llythyrau

Apêl 'Heno'

Annwyl Olygydd,

Yn ystod yr wythnos sy'n dechrau
ddydd Llun, 21 Mehefin, bydd
rhaglen deledu 'Heno' yn cynnal eu
apêl flynyddol. Eleni, elusen
MENCAP fydd yn elwa o'r arian a
godir yn ystod yr wythnos. Ond er
mwyn codi'r arian, mae'n rhaid
dibynnu ar garedigrwydd ac
ymroddiad gwirfoddolwyr.
Ysgrifennaf atoch i holi a fydddech
mor garedig â hysbysebu'r
digwyddiad yn yr Eco, ac i ofyn i
unrhyw un sydd am ein helpu i
gysylltu ag Eilir Evans ar (01554)
880859 neu Rebecca Griffiths ar
(01554) 880824.

Gwerthfawrogwn unrhyw
gymorth a gawn oddi wrth eich
darllenwyr, yn enwedig os oes
ganddynt syniadau gwreiddiol a
gwahanol i fynd ati i godi'r arian.
Diolch am eich sylw.

Yn gywir,

EILIR L. EVANS
Canolfan Agenda
Stryd y Parc, Llanelli
Sir Gaerfyrddin SA15 3YE

Gweithwyr Ferodo

Annwyl ddarllenwyr,

Ganol y chwe degau mi gaeodd
chwareli Dinorwig a Dyffryn
Nantlle gan adael cannoedd ar y
clwt. Ond daeth achubiaeth i rai
pan sefydlwyd ffatri Ferodo ar
lannau'r Fenai.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLEN

(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i
bensïynwyr, myfyrwyr
a phlant ysgol.

Roedd yn newid byd mawr i'r
chwarelwyr. O fod allan yn y
tywydd neu mewn sied ddrafftig,
mir oedden nhw rŵan dan do
mewn ffatri fodern gynnes. Ond a
oedd yr un hwyl i gael yno? Yr un
gymdeithas? Yr un tynnu coes?

Mae RadioTeledu Tanlli yn
chwilio am rai fu'n gweithio yn y
chwarel ac yn y ffatri i ddweud eu
hanes ar gyfer rhaglen radio
hanner awr i'r BBC. Faint o newidd
oedd hi? Oedd gwaith y ffatri'n
talun well? Mwy o wyliau? Oedd
'na hiraeth am fywyd y chwarel?

Os oeddech chi'n un fu'n
gweithio yn y ddau le neu yn
adnabod rhywun, mi fuaswn yn
ddiolchgar pe baech yn cysylltu â:

RadioTeledu Tanlli
7 Stryd y Wyddfa
Penygroes LL54 6NG

Yn gywir,

DAFYDD MEIRION (Cynhyrchydd)



BRYN PISTYLL
WAUNFAWR
(01286) 650721

1999 — GŴYL JOHN EVANS

DIWRNOD YR
AMGYLCHEDD

GWYL FAI

DYDD LLUN, 3 MAI
1.00 - 5.00 y pnawn

HWYL I'R TEULU I GYD
TRA'N DYSGU AM YR
AMGYLCHEDD A BLASU
TRADDODIADAU CELTAIDD
A MANDANAIDD



BRYN PISTYLL
WAUNFAWR
(01286) 650721

1999 — GŴYL JOHN EVANS

YN CYFLWYNO
NOSON WERIN
YNG NGHWMNI

Cajuns Denbo

NOS SUL, 2 MAI
AM 8.00 YR HWYR

AM FWY O FANYLION
CYSYLLTWCH AG
ANTUR WAUNFAWR



Blodau

o safon uchel
ar gyfer eich
achlysuron
arbennig

(01248) 352263

NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390



Mr Huw Morgan, cadeirydd Ymryson Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch; John Closs a William Arthur Williams yn cyflwyno sic o £400 i'w rannu rhwng nyrsus ardal y pedwar plwyf. Yn y llun hefyd mae Edythe Williams, Carol Howell a'r Dr Alwyn Parry.

Y CARNIFAL. Cynhelir Pwyllgor Carnifal Nant Peris am 8 o'r gloch, nos Fawrth, Ebrill 13, yn Nhy'n Llan. Yn y pwyllgor hwn y byddwn yn dechrau trefnu ar gyfer Carnifal yr haf hwn. Os na cheir rhagor o bobl i ymuno â'r pwyllgor i wneud y trefniadau mae perygl na fydd modd cynnal Carnifal eleni. Mae'r Carnifal wedi bod yn llwyddiannus iawn ers rhai blyneddodedd a gobeithio daw llawer o'r pentrefwyr i sicrhau bod yr un llwyddiant yn parhau eleni eto. CYDYMDEIMLO. Roeddem yn drist o glywed y newyddion am farwolaeth Mr Ted Anwyl, 3 Bro Glyder. Cydymdeimlwn yn fawr â'i briod Beverly a'r holl deulu yn eu colled. Anfonwn ein cofion hefyd at

ei fam, Mrs Lily Anwyl, sydd yng Nghartref Bron Eryri yn Llanberis. YSGOL FEITHRIN. Cynhaliodd Ysgol Feithrin Llanberis ffair sborion a bore coffi llwyddiannus ddechrau'r mis a gwnaed elw o dros £500. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Mae'r Ysgol Feithrin yn dibynnu ar gefnogaeth y gymuned yn Llanberis a'r Nant, a gwerthfawrogwn bob cymorth yn fawr. Wrth edrych ymlaen, carem bwysleisio fod angen gweithwyr newydd i ofalu am y pwyllgor sy'n trefnu'r gweithgareddau i godi arian at yr Ysgol Feithrin.

Dyma enillwyr raffl y bore coffi. Raffl fawr: Hamper, Brian, SMR; cinio i 2, Margot; £10 o betrol, Eric Thompson; hamper glanhau, Idwal Roberts; wy Pasg, Gwyneth Roberts; cyw iâr, Maxine Roberts; mygiau, Ann Parry; lluniau, Rhiannon Jones. Raffl fach: tegan, Heulwen Atkinson; tocyn trin gwallt, Heddwen Pritchard; gwin, Christine; sach cefn, Beth Hughes; siocled, Christine. Enwi'r tedi, Jean. Enwi'r ddol, Ann Jones. Diolch i bawb a gyfrannodd y gwobrau.

Pedair Cenhedlaeth



Cynhaliwyd gwasanaeth arbenig yn Eglwys Sant Peris, Nant Peris, ddydd Sul, Mawrth 7fed.

Roedd teulu Mr Arfon Phillips, Coed y Glyn, Llanberis wedi dod ynghyd i wasanaeth bedydd ei or-ŵyr, Alex Mathew Phillips. Rheithor yr eglwys, y Parchedig Philip Hughes oedd yn gwasanaethu.

Cynrychiolwyd pedair cenhedlaeth yn y gwasanaeth, sef Arfon, John, Arwyn ac Alex a phob un ohonynt, yn nhraddodiad y teulu, wedi cael eu bedyddio yn eglwys Sant Peris. Ac yn nhraddodiad y teulu hefyd fe ddefnyddiwyd dŵr o ffynnon leol yng ngwasanaeth bedydd Alex.

Mae Ffynnon Peris i'w chael yng ngardd Ty'n Ffynnon, cartref Margaret mam Arfon Phillips, a dŵr o'r ffynnon honno ddefnyddiwyd yng ngwasanaeth bedydd aelodau'r teulu ar hyd y cenedlaethau.

Mae hanes Ffynnon Peris, neu Ffynnon y Sant, i'w weld yn llyfr Dafydd Whiteside Thomas, *Chwedlau a Choelion Godre'r Wyddfa* a gyhoeddwyd gan Wasg Gwynedd. Mae Dafydd yn cyfeirio at y ffaith bod dŵr o'r ffynnon yn parhau i gael ei ddefnyddio mewn bedyddiadau yn eglwys Sant Peris, a dyma'r teulu Phillips yn cadarnhau hynny inni.

Antur Waunfawr

Llongyfarchiadau i Dewi Jones o'r Antur ar ei lwyddiant i ennill cymhwyster amgylcheddol newydd. Dewi yw'r cyntaf yng ngogledd Cymru i ennill y cymhwyster hwn.

Llwyddodd i ennill cymhwyster NVQ Lefel 3 Gwarchodaeth Amgylcheddol

drwy gynllun datblygu staff mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gyda chymorth ariannol o Ewrop.

Mae'r cymhwyster yma yn gosod safonau uchel i ymarfer da yn holl waith gwarchod a chadwraeth ac felly yn cyfrannu'n sylweddol i welliannau cynladwy yn ein cymunedau.

Gan fod Dewi rŵan yn gymwys i arolygu eraill sy'n gweithio tuag at ennill tystysgrif NVQ bydd yn cychwyn cynllun hyfforddiant Gwarchodaeth Amgylcheddol i weithwyr Antur Waunfawr.

**CYFEILLION
YSBYTY GWYNEDD
SIOE FFASIWN
YN THEATR GWYNEDD
NOS IAU, 5 EBRILL
am 7.30 p.m.**

Pris mynediad: £5
(gan gynnwys gwin a lluniaueth ysgafn)

Cyflwynir gan MAUREEN RHYS

DILLAD:

NEXT, LITTLEWOODS, WOOLWORTH,
MOMENTS, SIOLA

COLURO: DEBENHAMS

TRIN GWALLT: JULIE LEWIS SALON

ELW'R NOSON AT UNED CANR
NEWYDD YSBYTY GWYNEDD

G. EVANS

ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR



Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug
(01286) 678030

**OSMOND SHAW
DEINIOLLEN**

GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545



**J.M.
JONES
A'I FEIBION**

**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR
LLANRUG**

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

**DAFYDD
OWEN
TRYDANWR**

Pob math
o waith trydanol
a Larwmau Lladron

Aelod o'r



**11 Rhes Faenol
LLANBERIS
Ffôn: (01286) 871680**

O SIAMBAR SELWYN

Llwyfan ydi Sir Fôn, medda nhw, i weld gogoniant Sir Gaernarfon. Os ydych chi am weld plwy Llanddeiniolen i gyd y llwyfan ydi'r Clegir, ym mhlwyf Llanrug.

Fe gewch gip ar bob pentre ym mhlwyf Llanddeiniolen o'r Clegir. Fe welwch chi Bethel, Brynrefail, Deiniolen, Dinorwig, a Phenisarwaun ac, o sefyll ar flaenau eich traed, fe gewch gip ar ran o bentre Rhiwlas hefyd.

Mae plwyf Llanddeiniolen yn un o'r rhai mwyaf yng Nghymru a chan fod gennym ni gymaint o bentrefi mae o hefyd yn un o'r rhai anoddaf i'w weinyddu. Mae o'n ymestyn o gopa'r Elidir bron iawn at lannau'r Fenai.

Yn 1894 y ffurfiwyd y Cynghorau Plwyf. Bellach mae'r teitl wedi'i newid o fod yn Gyngor Cymdeithas i fod yn Gyngor Cymuned. Ond rydw i'n dal yn hen ffasiwn ac fel y Cyngor Plwy fyddai i'n cyfeirio ato, ac felly bydd hi bellach. Dwi 'run mor hen ffasiwn wrth fynd o steddod i steddod — mynd i feirniadu 'adrodd' fyddai i yn hytrach na mynd i feirniadu 'llefaru'.

Yn 1955 y dechreuais i ar fy swydd fel clerc Cyngor Plwy Llanddeiniolen. Yn Bryn Alun, Bethel roeddwn i'n byw ar y pryd a phan gyrhaeddodd y llwyth o ffeiliau a'r llyfrau a'r cypyrddau fe ges i dipyn o sioc. Mewn tŷ teras tair llofft, lle yn y byd mawr roeddwn i'n mynd i gael lle i'r holl bethau?

Wel, bu'n ofynnol i mi adeiladu swyddfa ym mhen draw'r ardd, ar fy nghost fy hun, fel y byddai gennyf ystafell addas i wneud y gwaith. Pan symudais i Crud-yr-awen, Bethel bu'n ofynnol i mi godi ystafell ychwanegol yno hefyd. Wedi symud yma i Benisarwaun doedd gen i ddim problem gan fod y tŷ yma yn hen ddigon mawr — yn rhy fawr i ddau ohonom bellach.

Mae pethau wedi newid llawer ers 1955. Hefo beic yr awn i'm cyfarfodydd cyntaf a hynny yn y Gynghorfa, Groeslon Racca, gan gario'r holl ohebiaeth ar y beic gan gynnwys y llyfr cofnodion anferth a oedd yr un maint, a'r

un pwysau, â'r Beibl mawr teuluol ac roedd hynny yn dipyn o straen ar noson boeth yn yr haf ond roedd yn fwy o straen ar noson wyntog, glawog, aeafol. Ond, roedd y cynghorwyr y pryd hynny hefyd yn cerdded i gyfarfodydd y Cyngor a rhai ohonynt ar ôl diwrnod caled o waith yn Chwarel Dinorwig a rhai o gynrychiolwyr Rhiwlas wedi diwrnod yr un mor galed yn Chwarel y Penrhyn. Chwarelwyr oedd yr holl aelodau a phob un ohonyn nhw wedi diosg eu trowsusau melfared a'r sgidiau hoelion mawr ac yn mynychu'r Cyngor mewn siwtiau parchus.

Er yr anfanteision a'r anhwylustod teithio roedd y dyddiau cynnar hynny yn un o'r rhai hapusaf yn y Cyngor ac yn addysg i glerc ifanc, di-brofiad. Criw oeddynt o chwarelwyr diwylliedig — y teip y sonia W. J. Gruffydd amdanyn nhw yn ei gyfrol *Hen Atgofion* gan ddatgan y rhoddai '... unrhyw beth am gael rhai o'r rhain yn fy nosbarthiadau yn y Brifysgol'. Roedd y ddawn ganddyn nhw i siarad heb wastraffu geiriau. Yn wir, ni fyddai yr un ohonyn nhw yn meiddio mynd rownd Bethesda i gyrraedd Bethel, na rownd Bangor i gyrraedd Brynrefail. Ceid trafodaethau a dadleuon o safon, mewn Cymraeg graenus. Weithiau, fe âi ambell un dros ben llestri ac fe glywid iaith go liwgar yn atseinio drwy'r Gynghorfa. Cofiaf yn ddiweddarach i un gweinidog parchus ac un rheithor fod yn aelodau o'r Cyngor ond doedd na ddim atal ar y diawlio os byddai angen ansoddair go liwgar. Byr ac i bwrpas oedd y cyfraniadau. Doedd chwarelwyr blinedig ddim am ddod i wastraffu amser ar ôl diwrnod caled o waith yn y chwarel. Ar nos Wener y byddem ni yn cyfarfod bryd hynny a lampau olew fyddai'n goleuo'r Gynghorfa.

Sgwennu pob llythyr y byddwn i y pryd hynny mewn llawysgrifen (hynod flêr rwy'n cyfaddef). Y rhan fwyaf o'r ohebiaeth rhwng yr hen Gyngor Gwyrfaei (lle roeddwn i'n gweithio ar y pryd), yr hen Gyngor Sir, a Stâd y Faenol. Coeliwch neu beidio, yn Saesneg yn amlach na pheidio fyddai'r ohebiaeth a fûm i 'rioed yn Sais da 'chwaith!

Gofynnwyd i mi sawl tro beth yw'r prif newidiadau dros yr hanner can mlynedd diwethaf. Wel mae dau beth yn sicr — cau Chwarel Dinorwig a chwalu Stâd y Faenol. Mae yna golled, o bosib, fod y chwarel wedi cau. Mae yna le i ddiolch hefyd ac, yn sicr, mae lle i lawenhau fod Stâd y Faenol wedi diflannu.

Bellach mae gan glerc Cyngor Plwy Llanddeiniolen depiadur, ffôn, cyfrifiadur a llun-gopiwr ar gyfer ei waith ac mae'r postman yn galw bob dydd efo pentwr o lythyrâu.

Mae'r holl weithgarwch a'r datblygiadau a newidiodd patrwm byw yr ardaloedd yma o fewn ffiniau plwyf Llanddeiniolen — yr Orsaf Drydan, yr Amgueddfa a Lein Bach Llyn Padarn. Cyn bo hir gobeithiwn weld defnydd newydd yn cael ei wneud o hen Ysgol Brynrefail a hen Ysgol Tan-y-coed, Penisarwaun a sawl adeilad arall o fewn y plwy, ac mae yna ddatblygiadau yn mynd ymlaen yn Neiniolen a hynny wedi hir oedi. Mae'n edrych yn obeithiol.

Does yna'r un cynhgorwr yn derbyn yr un geiniog am eu gwasanaeth — mae'r cyfan yn wirfoddol — dim hyd yn oed costau teithio i'r Cyngor. Mae gen i'r parch mwyaf at Gynghorwyr Cymuned a phan fyddai i'n cael trafferth i gysgu ambell noson mi fyddai i'n trio cofio faint o gynghorwyr rydw i wedi cael y fraint o gydweithio efo nhw — oes mae yna dros 150 ohonyn nhw ac, rwy'n falch o gael dweud, fe ddangosodd y cyfran helaeth iawn o'r rhain y parch mwya tuag ataf innau hefyd. Yn wir, bu'n bleser cael cydweithio efo nhw.

Ym mis Mehefin eleni cynhelir

etholiad unwaith eto ac os yw rhai ohonoch yn feirniadol o'ch cynrychiolwyr — wel dyma eich cyfle i geisio gwneud y gwaith (di-ddiolch) yn 'well' na nhw. Gallaf eich sicrhau na fedrwyd chi byth belesio pawb, boed chi'n gynghorydd neu'n glerc y Cyngor.

Ia, joban di-ddiolch ydi bod yn Gynghorydd Cymuned a chofiwch mai ar gost eich hun y byddwch chi'n gwneud y gwaith.

Mae'n ddiddorol sylwi ar reolau cynnar y Cyngor yn 1893:

1. Rhaid i aelod pan yn siarad sefyll a chyfarfod y Cadeirydd.
2. Bydd yn ofynnol i Aelod gyfyngu ei sylwadau yn llwyr i'r mater dan sylw.
3. Ni chaniatier i Aelod annerch y Cyngor ar unrhyw fater fwy na dwywaith, heb ganiatâd y Cadeirydd.

Hyd y gwn mae'r rheolau uchod yn parhau mewn bodolaeth — ond ni chedwir hwynt. Yn 1955 roedd Cyngor Llanddeiniolen yn gyfrifol am y Llyfrgell yn Neiniolen. Ar Fedi 8fed 1910 bu pleidleisio mewn chwe bwth drwy'r plwy er mwyn cael llais y plwyfolion a oeddent am fabwysiadu'r Ddeddf Llyfrgelloedd ai peidio. Pleidleisiodd 956 — 527 o blaid a 429 yn erbyn. Mwyafrif o 98.

Yna codwyd nyth cacwn. Ym mhle i adeiladu'r Llyfrgell. Bu pleidleisio wedyn ar Hydref 8fed 1910 a'r canlyniad oedd: Bethel 9; Penisarwaun 83; Deiniolen 527. Fe gostiodd y Llyfrgell £1,120 i'w chodi.

Mae yna dros ganrif o hanes y Cyngor Plwy sy'n ddiddorol i'r sawl sy'n awyddus i wneud y gwaith ac mae'n waith caled. Rhywbeth i'w gyflawni bob dydd a rhaid cofio a derbyn 'nad yw bywyd yn ddiddorol heb ambell problem'.

I gloi. Costau postio'r Cyngor am y flwyddyn 1955-56 (pan ddechreuais i fel clerc) oedd £6.4.10. Y flwyddyn bresennol mae'r costau yn £166.56.

Rhaid, mae'n rhaid i chi fwynhau sgwennu llythyrâu os am fod yn glerc Cyngor Plwy a llythyrâu 'cwyno' ydi cyfran helaeth ohonyn nhw.



**ORIEL
CWM**

Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa
o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

**Gwesty
Dolbadarn**
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

AR WERTH
GWELY A MATRES SENGL
MEWN CYFLWR DA
(01286) 674778

**MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD**



**BANGOR
(01248)
354646**

'Un funud fach . . .'

DYNAS DDIARTH

Rwyf wrth fy modd efo bwletinaw tywydd HTV sy'n dweud pa dywydd fydd hi yn Fachwen neu yn Nant y Benglog y diwrnod canlynol. Ond fe wnaeth rhywun gawl o bethau un nos Wener yn ddiweddar. Nid Dilwyn Young Jones a welwyd ar y sgrin ond map o dde-orllewin Lloegr, a dynas ddiarth yn darogan tywydd fwrw'r Sul yng Nghernyw a Gwlad yr Haf. Roeddwn yn disgwyl i'r greadures ddiflannu unrhyw eiliad ac i Mr Young Jones gymryd ei lle, ond ddigwyddodd hynny ddim. Aeth yn ei blaen i fanylu am dywydd Bryste a'r cyffiniau cyn dymuno Sul y Mamau hapus i bawb. A'r peth mwyaf od oedd fod Sul y Mamau wedi bod wythnos cynt! Dyna i chi fwletin diwerth. Roedd yn gwbl amherthnasol i ni yng ngogledd Cymru, a gwaeth na hynny hyd yn oed oedd y ffaith mai tywydd yr wythnos cynt oedd o!

A ninnau ar drothwy'r Pasg, mae angen i ni fod yn hyderus ynglŷn â neges Efengyl yr Arglwydd Iesu Grist. Mae cymaint yn mynnu fod digwyddiadau mawr y Pasg, fel y bwletin tywydd, yn amherthnasol ac yn hen ffasiwn. Wrth ddiolch am y Groes a dathlu'r Atgyfodiad eleni, byddwn yn dweud yn glir bod â wnelo'r hyn a ddigwyddodd 2000 o flynyddoedd yn ôl bopeth â'n bywydau ni heddiw. Marw wnaeth Iesu Grist er mwyn i ni gael byw. I'r Cristion nid syniadau sy'n perthyn i'r oes o'r blaen yw'r neges am Iesu yn marw yn ein lle, ac yn cymryd ein cosb. Peth real iawn yw'r neges am faddeuant, a phrofiad byw yw'r bywyd newydd sy'n dod trwy gredu yn y Crist a fu farw ac a ddaeth yn ôl yn fyw.

Byddwch yn llawen yn yr Efengyl y Pasg hwn. Mae'n para yn allu Duw er iachawdwriaeth. Mae yna rai bob dydd sy'n dod i ddarganfod drostynt eu hunain mai gwir yw'r hanesion am y groes a'r bedd gwag. Ac mae'r darganfyddiad yn gwneud y fath wahaniaeth i fywydau pobl. Ydach chi'n credu'r pethau hyn?

JOHN PRITCHARD

CWM Y GLO
Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

GARTREF O'R YSBYTY. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mr Maldwyn Hughes, 2 Bryn Gro ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r aelodau yn Hafan Elan ar 1 Mawrth i ddatlu Gŵyl Ddewi. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Rheithor, y Parchg Philip Hughes. Trafod rhai materion ac yna cafwyd lluniaueth a drefnwyd gan Mrs Joyce Ransom a Mrs Enid Taylor. Rhoddwyd y raffl gan y gwesteion ac fe'i hennillwyd gan Mrs Kath Jones. Diolchwyd i'r gwesteion gan Miss Meira Williams.

Terfynwyd trwy weddi. Bydd y cyfarfod nesaf ar 12 Ebrill. NEWYDDION O'R YSGOL. Y mis hwn rydym yn croesawu Miss Sharon Roberts atom fel cymorthydd dosbarth. Mae hi wedi setlo'n dda iawn yn nosbarth Mrs Williams ac mae Jack a hithau wedi dod yn ffrindiau mawr.

Llongyfarchiadau i Miss Myfanwy Roberts, Bod Gwilym a Mrs Sioned Jones, Isfryn, y ddwy o Gwm-y-glo, ar ennill dwy wobwr Clwb yr Ysgol am fis Chwefror.

Treuliodd dosbarth Mrs Jennifer Roberts fore yng ngwaith brics

Menter Fachwen



Dros yr wythnosau diwetha mae prysurdeb mawr wedi bod yn Nhŷ Llundain, Cwm-y-glo. Mae Menter Fachwen yn sefydlu Canolfan Adnoddau yno lle bydd cyfleusterau i drigolion y fro droi i mewn i'r caffi am baned a chael syrffio'r we.

Am ddeuddydd yn ystod mis Mawrth bu gweithwyr cwmni First Hydro yno'n gosod cegin newydd yn y caffi. Roedden nhw'n gweithio dan gytundeb mudiad cenedlaethol Busnesau yn y Gymuned (BITC) a drefnwyd gan Tom Burnham o BITC i'r cwmni mawr First Hydro, sy'n aelod o'r mudiad, i helpu cwmni llai.

Roedd Dafydd Williams o

First Hydro yn awyddus iawn i helpu Menter Fachwen ac mae'r gwaith yn y Ganolfan Adnoddau wedi symud ymlaen yn dda wedi iddo fo a'i dim fod yn gosod y gegin newydd.

Dyweddodd Christine Jones, rheolwr Menter Fachwen, 'Rydan ni'n ddiolchgar iawn i First Hydro ac i Dafydd Williams a'r hogia am yr help a gawson ni i osod y gegin ac rydan ni'n edrych ymlaen at gael agor y Ganolfan yn swyddogol yn fuan iawn.'

Yn y llun gwelir Dafydd Williams efo Dewi ap Thomas, Gareth Jones, Gwyn Jones a Huw Roberts.

Hanson yng Nghaernarfon. Cawsant fore diddorol ac addysgol a rŵan mae pob un ohonynt yn awyddus i adeiladu tŷ iddo'i hun — ryw ddiwrnod!

Daeth rhai gwobrau i'r Ysgol yng nghystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd, Cylch Arfon a Sir Eryri. Llongyfarchiadau i Dewi Wyn Jones, Jack Watson, Siôn Arfon Hughes, Sara Jones a Cheryl Williams. Pob lwc yn wir i waith Jack, Siôn a Sara yn Llanbedr Pont Steffan.

Yn yr Eisteddfod Cylch daeth y wobwr gyntaf i Sara Jones am lefaru dan 8 oed; i Lauren Jordan am lefaru dan 8 oed i ddysgwyr; i'r parti dawnsio gwerin dan 10 oed; ac i'r côr dan 12 oed. Pob dymuniad da yn Eisteddfod Sir Eryri. Ar ran y plant a'u rhieni, diolch yn fawr iawn i'r athrawon sydd wedi bod yn hyfforddi'r plant.

Carem ddiolch i Mr Eifion Jones, prifathro Ysgol Brynrefail, am groesawu plant Bl. 6 a rhoi cyfle iddynt gael blas ar fywyd yn yr ysgol uwchradd.

Cawsom wasanaeth tra gwahanol un prynhawn pan ddaeth y Parchg John Pritchard, Llanberis â phedwar ffrind o Fflorida i'r Ysgol. Bu Dave, Michelle, Caroline a Christina yn perfformio caneuon a dramodigau gyda moeswrs ynddynt. Wedi ymgynffwrdd â'r acen ddiethr, doedd y plant fawr o dro yn ymuno yn y canu, y chwifio breichiau a'r dawnsio.

DIOLCH. Dymuna plant a theulu y ddiweddar Elizabeth Mary Jones, Seiont House, Cwm-y-glo ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl. Diolch hefyd am y llu cardiau a'r rhoddion tuag at Feddygfa Llanberis. Diolch yn arbennig i'r cymdogaion agos am eu ffyddlondeb a'u caredigrwydd tuag ati ar hyd y blynyddoedd.

DRAENOG



Gŵr a gwraig yn cychwyn o Lanberis i Warrington i brynu ci newydd. Stopio'r car dair gwaith ar y ffordd i wneud yn siŵr bod y llyfr sieciau gan y wraig. Ond yn Warrington, sylweddoli mai llyfr sieciau gwag oedd ganddi. Bu'n rhai i'r gŵr fynd yn ôl y diwrnod wedyn i nôl y ci. Dyn y Jôc Ci Bach fydd o rŵan.

CARTREF YMDDEOL DEINIOLLEN LODGE

Ffôn: (01286) 871073



AR FIN AGOR

HOLWCH AM FANYLION

Trin Traed Gwartheg



'Crush' pwrpasol gan W.O.P.A.

Ar gyfer buwch neu darw

Hefyd:

Ymgymmerir â shafio gwartheg tew

Dylan Roberts
Penllech Bach, Tudweiliog, Pwllheli
(01758) 770279 : symudol 0421 956143

CHWILOTA

Yn llinach yr Hen Deuluoedd Bonheddig



Rai misoedd yn ôl cefais wahoddiad i Gymdeithas Lenyddol Waunfawr lle bûm ym trafod rhai o ddisgynyddion teuluoedd oedd yn berchen ar diroedd rhydd yr hen drefgorddau Rug, Rhuddallt, Castellmai a Threflan. Roedd yn syndod fel roedd priodasau o fewn y teuluoedd hynny wedi gwarchod eiddo a hawliau ar dir yn y parthau amaethyddol gorau ym mhlwyfi Llanrug a Llanfair-is-gaer, ac mewn rhannau o blwyfi Llanbeblig (a gynhwysai Waunfawr bryd hynny) a Llanwnda. Dyma deuluoedd y gwŷr rhyddion; y rhai oedd yn berchen tir ond er hynny yn gorfod talu trethi i'r arglwydd (ac yn ddiweddarach i'r brenin). Dyma hefyd y teuluoedd a ddechreuodd feddiannu yr hen randiroedd caeth a roddwyd ar y farchnad agored yn gynnar yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Disgynyddion yr hen deuluoedd hyn, dair canrif yn ddiweddarach, a ddechreuodd hawlio'r tiroedd comin hefyd.

Roedd yn eithaf cyffredin anafod teuluoedd mawr ymhlith yr haen 'fonheddig' hon ac, er bod yr hen batrwm Cymreig o feddiannu eiddo (gan y mab hynaf yn unig) wedi darod amdano'n gyfreithiol, eto'i gyd y duedd oedd i'r mab hynaf aros gartref ac i'r brodyr a'r chwiorydd eraill symud i gartrefi eraill i fyw. Ond mae'n amlwg fod eu statws 'bonheddig' yn ceisio cael ei warchod a hynny hyd yn oed wedi i genedlaethau o ddisgynyddion fynd heibio.

Mae'n ymddangos i mi fod tenantiaid gorau Stâd y Faenol yn perthyn i'r hen deuluoedd 'bonheddig' Cymreig a oedd mor amlwg yn eu bro bedair a phum canrif yn gynharach. Bydd angeng cryn dipyn o waith ymchwil manwl cyn medru cadarnhau hyn ond dyma un enghraifft, o fewn bro *Eco'r Wyddfa*, sy'n ffitio'r patrwm.

Un o'r gwŷr rhyddion y ceir nifer o gyfeiriadau ato yng nghofnodion Llys y bymthegfed ganrif oedd Hywel ap Ieuan ap Dafydd o'r Rug (sef hen drefgordd Llanrug). O'i feibion a'i ferched y deilliodd rhai o deuluoedd mwyaf pwerus Arfon, Môn ac Eifionydd: teuluoedd megis Williamsiaid Plas Pentir; Wynniaid Ystumlllyn (Broom Hall yn ddiweddarach);

Bulkeleys Baron Hill; a Rowlands Plastirion a Bodaden.

Roedd cangen arall o'r teulu yn byw'n wreiddiol yng Nghastellmai. Bu William ap Rowland farw yn 1698 a phrynwyd Castellmai gan Owen ap William, ei drydydd mab. Mab iddo yntau, o'r enw Humphrey Owen a briododd â Margaret Edward Morgan o Waunfawr. Roeddent yn byw yn Glanrafon Bach, Llanbeblig, ond tua 1772 aethant i fyw i Lanfaglan. Roedd eu mab hynaf, Owen Humphrey, yn berchen ar Blas yn Nantlle ac mae ei ddisgynyddion i'w canfod yn yr ardal honno ac yn Eifionydd.

Mab arall oedd Morgan Humphreys, a ddaeth yn denant Treborth, Bangor. Priododd Elinor Humphreys, y ferch hynaf, â William Lloyd mab Griffith Lloyd, Bryn Adda, fferm sylweddol o fewn waliau'r Faenol. Mab i William ac Elinor Lloyd oedd Humphrey Lloyd (neu Humphrey Llwyd fel y cyfeirir aro'n aml. Yn fuan wedi ei briodas, â Dorothy Hughes o Glynnog, daeth Humphrey Llwyd yn ôl i diroedd ei gyndeidiau a chymryd tenantiaeth fferm Prysgol, ger Caeathro. Daeth yn amlwg ym mywydd crefyddol yr ardal ac yn un o sylfaenwyr yr achos

Methodistaidd yng Nghaeathro. Roedd cefnder iddo, Humphrey Davies, yn denant fferm fawr arall yn yr ardal, sef Dolgynfynydd, Pontrug, a chefnder arall (David, brawd Humphrey Davies) yn denant fferm Glanrafon, Llanrug.

Felly, hyd yn oed mor ddiweddar â'r ganrif ddiwethaf, roedd disgynyddion rhai o deuluoedd gwreiddiol y fro yn parhau i amaethu tir eu cyndeidiau — bellach yn denantiaid yn hytrach na pherchnogion. Tybed oes yna ffermwyr eraill ym mro'r *Eco* sy'n ymwybodol eu bod yn hanu o linach a oedd yn berchen eu tiroedd eu hunain bum canrif yn ôl.

SEFYDLU CYNGHRAIR BÊL-DROED

Bu Tom Davies o Lanrug yn brysur yn pori drwy hen rifynnau o'r *Caernarvon & Denbigh Herald* yn chwilio am wybodaeth am dimau pêl-droed cynnar yr ardal. Dros y misoedd nesaf bydd pigion o'i nodiadau yn cael eu cynnwys i roi darlun o'r cymeriadau oedd yn ymwneud â'r gêm yn ei dyddiau cynnar yn y fro.

Ym mis Chwefror 1922 ceir adroddiad am sefydlu Cynghair Pêl-droed Eryri, a hynny yn dilyn cyfarfod yng Nghwm-y-glo. Roedd cynrychiolwyr yno o'r timau canlynol: Rhyddallt Comrades, Glasgoed Rangers, Llanberis United (nid Athletic), ac Ebenezer. Yn ddiweddarach cyfeirir at y Gynghrair fel 'Cynghair Gyfeillgar Eryri' ac yr oedd tîm Cefn Llwyd yn aelodau hefyd.

Yn y gemau cyntaf, trechodd Glasgoed Rangers dim Ebenezer

o 3 gôl i 1, a cholodd Rhyddallt Comrades gartref i Llanberis United o 3 gôl i 4. Ond, fel ym mhob gêm rhwng timau Llanrug a Llanberis, roedd rhyw gam wedi digwydd. Roedd y tîm cartref dri dyn yn fyr a bu'n rhaid chwilio am eilyddion cyn dechrau'r gêm. Mae'r adroddiad yn honni bod y tîm cartref yn haeddu ennill ac y byddai gêm gyfartal wedi bod yn decach. Adroddir hefyd fod pwyllgor y Rhyddallt Comrades wedi anfon protest i'r Gynghrair oherwydd i un o chwaraewyr Llanberis United sgorio gôl â'i law!

Erbyn dechrau tymor 1922-23 roedd Rhyddallt Comrades a Glasgoed Rangers wedi ymuno i ffurfio tîm cryfach — Llanrug, ac fe'i derbyniwyd i Gynghrair Genedlaethol Cymru, Adran 3 (Gorllewin). Mwy o hanes y Gynghrair honno y tro nesaf.

GWYBODAETH AM DEULU

Tybed oes unrhyw un o'r darllenwyr â gwybodaeth am Thomas Williams, Glan Bala, Llanberis. Roedd ei chwaer, Ann (1773-1830) yn briod â chyfreithiwr o Gaernarfon, Evan Powell, a fu hefyd yn Rheolwr y Tollau yn y dref. Cyfreithiwr ym Miwmares oedd eu tad, John Williams, ond cyfeirir ato fel John Williams, Llanddeiniolen.

Anfonwch wybodaeth neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (01286) 673515.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £££ ichwi
ac yn ymestyn oes eich car

FAVW

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhos Faenol Ffôn: 871174

MERCHED Y WAWR. Nos Lun, Chwefror 15, cyfarfu Merched y Wawr yn Neuadd Ysgol Gwaun Gynfi. Estynnwyd croeso gan yr ysgrifenyddes, Iona Richards, yn absenoldeb y llywydd, Eirlys Williams, oherwydd gwaelled ei gŵr. Anfonwyd ein cofion at y ddau.

Dangoswyd sleidiau o'i thaith i Alaska a Canada gan J. Möeller. Gwelsom ei bod hi a'i ffrind Margaret Mathews wedi crwydro llawer yng ngogledd America a mwynhawyd y golygfeydd hardd yn fawr.

Nos Wener, Chwefror 26, mwynhaodd yr aelodau eu cinio Gŵyl Ddewi yn y Bistro, Llanberis. DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD. Buom yn dathlu'r dydd gweddi yn festri Ebeneser, dydd Gwener, Mawrth 5. Y llywydd oedd Mrs Gwen Griffith, Llandinorwig, a'r cyfeilydd oedd Miss J. Parc Jones, Ebeneser. Gwragedd Venezuela yn Ne America a gyfansoddodd y neges eleni, a chlywsom mor wahanol yw hi arnynt hwy yno i'n sefyllfa ni yng Nghymru. Maent yn dioddef trais, esgeulusdod, creulondeb, diweithdra a diffyg maeth. Cymerwyd rhan gan aelodau Libanus, Ebeneser, Llandinorwig a Chefnywaun. Cydymdeimlwyd â Miss Beti Williams yn ei phrofedigaeth chwerw o golli ei

chwaer. Diolchodd y llywydd i bawb a gymerodd ran yn y cyfarfod.

Y SEINDORF. Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ddod yn bedwerydd allan o ddeg o fandiau mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn yn Neuadd y Brangwyn, Abertawe. Dyma'r tro cyntaf i'r Seindorf gystadlu yn yr ail adran.

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST, LLANDINORWIG. Yn neuadd yr eglwys, Mawrth 1af, cynhaliwyd cyfarfod i ddathlu dydd Gŵyl Ddewi. Mwynhawyd swper blasus o gawl cennin a theisen afalau wedi eu paratoi gan aelodau'r gymdeithas. Yn dilyn cawsom wrando ar y Parchg Gwynfa Roberts yn trafod yn ddiddorol am ei gasgliad helaeth o boteli a'r pleser a gaiff o'u casglu. Diolchwyd i'r gŵr gwadd gan y Parchg Tegid Roberts.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Ebrill 7fed am 7 o'r gloch a'r gŵr gwadd fydd Mr Dewi Jones yn siarad am 'Blanhigion Prin Eryri'.

Y CLWB SNWCER. Dyma ganlyniadau cystadlaethau a gynhaliwyd ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf — Snwcer dan 13: 1, Chris Thomas; 2, David Crane; dan 16: 1, Paul Crane; 2, Arwel Williams; dros 16: 1, Gethin Williams. Billiards: 1, Gethin Williams; 2, Colin Worth. Cyflwynwyd y gwobrau gan Mr G.

Williams, Crefftiau Eryri, Deiniolen.

Dymunwn ddiolch i Mr C. Lacey, y Wellington am ddarparu lluniaeth ar gyfer y noson ac i Mrs Mr Parry, Hafod Olau am y teisennau; ac i bawb a gyfranodd at y noson. Diolch i Mr A. Williams am ei rodd o £60; i Mr Andrew Griffiths am archwilio'r llyfrau; ac i Mr Irfon Jones am ei waith canmoladwy fel trysorydd y Clwb.

CYFARFOD PREGETHU. Cynhelir Cyfarfod Pregethu Cefnywaun ddydd Sul y Pasg, Ebrill 4. Bydd yr oedfaon am 10 o'r gloch a 5 o'r gloch. Y pregethwr gwadd fydd y Parchg Iorwerth Jones Owen, Caernarfon. Bydd croeso cynnes i bawb a ddaw i'r cyfarfodydd.

Y CYNGOR EGLWYSIG. Croesawyd y Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon i gyfarfod mis Mawrth y Cyngor Eglwysig a gynhaliwyd yng Nghefnywaun nos Lun, Mawrth 8. Miss Jean Parc Jones oedd yn llywyddu.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Mr John Hughes, Racca oedd y gŵr gwadd yn y cyfarfod a gynhaliwyd nos Lun, Mawrth 22. Cafwyd sgwrs ddiddorol ganddo ar y testun, 'Plismona yn yr hen Sir Gaernarfon'. Bu'n dweud ei hanes yn dechrau yn Llanerch-y-medd, ac yna ym Mhwlheli a Chaergybi. Mrs Iona Richards oedd yn llywyddu a thalwyd y diolchiadau gan Mrs Eirlys Williams.

CEFNYWAUN AC EBENESER. Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y Chwiorydd yn Ebeneser brynhawn lau, Mawrth 11 dan lywyddiaeth Mrs

Margaret C. Griffith. Roedd y defosiwn yng ngofal Mrs Jane Jones. Cafwyd trafodaeth dan arweiniad y Parchg John Pritchard.



Alison V. Jones a dderbyniodd dlws. Enillyd Tarian Coffa T. G. Jones am 1996 ac 1997.

DRAENOG

Glywsoch chi am y meddyg o'r ardal brynodd gar newydd? Y tro cyntaf iddo fynd ynddo i Gaernarfon fe anghofiodd lle roedd o wedi'i barcio.



Sinead C. Jones a dderbyniodd Tarian Coffa T. G. Jones am wneud y mwyaf o oriau gwirfoddol a phresenoldeb yn y dosbarth yn ystod 1998.



Cadlanciau a Badgers Urdd St. Ioan a dderbyniodd fathodynau i ddathlu 900 mlynedd y mudiad oddi wrth y comisiynydd, Mrs Gwenan Watkins, ar ei hymweliad â'r gangen yn ddiweddar.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang o Welyau a 3P/Suites. Llenni Venetian a Llenni Roler. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher



GWASAETH AILGYLCHU
GWYNEDD

Ffôn: (01248) 355112

Safle
Ailgylchu Cymunedol
LLANRUG

BINIAU YN DERBYN
CANIAU : PAPURAU NEWYDD
A DILLAD

y tu cefn i adeilad
YR INSTITIWT
FFORDD YR ORSAF



PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YSGOL GYMUNED. Ers nifer o wythnosau bellach mae Mr Terry Boyle a Mr Gavin Allen wedi bod yn ymweld â'r ysgol yn wythnosol i hyfforddi'r plant mewn sgiliau pêl-droed. Yn ogystal â dysgu mae'r plant wedi mwynhau eu cyfnodau hyfforddiant yn fawr iawn. Mawr yw ein diolch i Mr Boyle a Mr Allen am eu cymorth.

I ddathlu gŵyl ein Nawddsant cynhaliwyd gwasanaeth arbennig ym mhresenoldeb holl staff yr ysgol.

Fel rhan o'u thema aeth plant Adran y Babanod i ymweld ag Eglwys y Santes Helen. Diolch i Anti Meri am eu tywys o amgylch yr Eglwys gan adrodd straeon difyr wrthynt.

I Amgueddfa Llanberis yr aeth plant Bl. 5 a 6 i fwynhau yr arddangosfeydd yno, tra bu plant Bl. 3 a 4 yn mwynhau cwmni a sgwrs gan Brenda Wyn Jones, awdures *Bwli a Bradwr*, ar ôl darllen y llyfr. Diolch yn fawr iawn i Brenda am fore hynod o ddifyr.

Ychydig cyn diwedd y tymor cynhaliwyd ffug-briodas yn y neuadd gymuned a'r pâr priod oedd Megan Lois Jones a Christopher Hamer ac Andrew Woodcock oedd yn gweinyddu'r seremoni. Gobeithiwn gynnwys adroddiad llawn ynghyd â lluniau yn rhifyn nesaf o'r *Eco*.

URDD ADRAN BENTREF. Casglwyd £60 ar ddydd Baneri i'r Urdd. Diolchir i bawb am eu haelion. Bu 38 o aelodau yng Ngwesty'r Celt ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn canu gydag Edward a rhyfeddu ar gonsuriaeth Robert Jones.

Llongyferchir y Parti Cerdd Dant a ddaeth yn drydydd yn yr Eisteddfod Cylch. Diolchir i bawb fu wrthi'n ddiwyd yn hyfforddi'r plant ar gyfer yr amrywiol gystadlaethau.

Diolch o galon i Eirlys Williams, Bethel am noson arbennig yn gwneud bisgedi Pasg. Gorffennwyd y gweithgareddau gyda Bingo Pasg. Bydd yr Adran yn ailgychwyn yn yr Hydref, wedi'r Diolchgarwch.

COLLI ANWYLIAID. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â theulu Eurwyn Jones, Camelot ar golli ei fam o Fethel. Bu'n fam, nain a hen nain adffwyrn i'w theulu.

Cydymdeimlir yn ddwfn iawn â Heulwen, 28 Bryntirion ar ei cholled fawr hithau.

DIOLCH. Dymuna Jen a'r teulu, Alijen, ddiolch am y cardiau, galwadau ffôn a'r ymweliadau yn ystod ei phrofedigaeth o golli ei mam mor annisgwyl.

Dymuna Nan, Jean a Mona ddiolch i drigolion yr Eco am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad ym marwolaeth eu mam, Mrs Elen Roberts, 12 Llys y Gwynt gynt.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant mis Mawrth a'r enillwyr oedd — 1, Dilys Williams, 7 Llys y Gwynt; 2, Mrs Rosie Jones, Blodfa, Pen-y-groes; 3, Nansi Jones, Meillionydd. Cynhaliwyd Disgo'r Pasg yn y Neuadd Gymuned, nos lau, Mawrth 25, o 6-7.30 p.m. Diolchir i bawb a gefnogodd y noson mewn unrhyw fodd. Ein cyfarchion fel pwyllgor i aelod ffyddlon o'r Clwb Cant, sef Mrs Annie Williams, Meillionydd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed.

YMDDEOL. Dymunwn ymddeoliad hapus i Brenda Richardson wedi blynyddoedd ym Mhlas Pengwaith, Llanberis. Pob dymuniad da, Brenda. LLONGYFARCHIADAU mawr i Nant Roberts ar ennill Cadair yn Eisteddfod y Cilgwyn gyda'i stori fer 'Dieithriad'. Ymlaen i'r Genedlaethol rŵan, Nant. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

YSGOL SUL BOSRA. Cafodd y plant gyfle i ddangos eu diolch i'w mamau ar Sul y Mamau — gwnaeth pob un gerdyn hyfryd a chyflwyno blodyn fel arwydd o'u cariad a'u diolch.

Mae mis caled o'u blaenau gyda Chymanfa'r Annibynwyr yng Nghapel Bosra, Ebrill 18, am 2 y pnawn a 6 yr hwyr. Arweinydd y gân yn y pnawn fydd Marina Jones a Mair Huws Llanrug gyda'r nos. Yn nghyfarfod yr hwyr ceir eitemau gan Gôr Dyffryn Peris, dan arweiniad Mair Huws.

Ddydd Sul, Ebrill 25, am 2 o'r gloch cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid yng Nghapel Hiracl, Bangor. Trefnir bws i'r rhai sy'n dymuno mynd yno.

GWELLHAD. Anfonir ein cofion anwylaf i bawb sydd ddim yn teimlo'n dda — brysiwch wella i gyd.

Rydym i gyd yn cofio atat, William (Penpwlloch) ac yn anfon y dymuniadau gorau iti yn Ysbyty Gwynedd.

EGLWYS SANTES HELEN. Ym

marwolaeth Mrs Jane Roberts, Elidir View, Llanrug colodd Eglwys Santes Helen, Penisarwaun un o'i haelodau gorau. Ers dod yn aelod o'r Eglwys yn 1942 cymerodd Anti Jennie ran lawn, amrywiol, gweithgar a phrysur ym mywyd yr Eglwys. Am flynyddoedd maith byddai hi, ei phriod Orwig a'i mam yng nghyfraith, Mrs Sarah Roberts, Ship Cottage yn cerdded pob cam i'r Eglwys. Y gair 'gweini' sy'n ddiffiniad o'i bywyd oherwydd gwasanaethu, gweinyddu, gofalu a

gweithio dros eraill a wnaeth gydol ei hoes. Roedd yn adnabyddus i lu o blant Penisarwaun ac roedd yn ddjarhebol o garedig — roedd wrth ei bodd yn rhoi. Cydymdeimlir â'r teulu oll.

GWASANAETHAU'R PASG. Dydd Gwener y Groglith: Myfyrdod y Groes am 2 o'r gloch yng ngofal y Parchg Tegid Roberts.

Sul y Pasg: Gweinyddir y Cymun Bendigaid am 9 y bore. Hwn fydd gwasanaeth olaf y Parchg Tegid Roberts fel Clerig Mewn Gofal.


Gwarchodwyr Newydd



Mae perchnogion newydd yng Nghartref Preswyl Sant Teilo ym Methel. Symudodd Ellis Wyn Jones a'i wraig Iola a'u dwy ferch, Sioned ac Elin, yno ryw fis yn ôl bellach. Mae gan Iola gysylltiad agos â Bethel a chyda'r hen eglwys a addaswyd yn gartref preswyl rai blynyddoedd yn ôl. Roedd ei thaid, Robert Jones, yn glochudd yno am flynyddoedd a byddai Iola yn mynychu'r oedfaon yno pan fyddai ar ei gwyliau ym Methel. Roedd ei nain, Margaret Jones, yn gogyddes yn yr ysgol leol. Mae'r swydd newydd yn golygu cryn newid byd i Ellis a fu'n farbwr am flynyddoedd, ond gallai hynny hefyd olygu bod gan y trigolion siawns go dda am 'perm' neu 'shampoo a set'! Bu Iola yn gweithio fel nyrs yn y

Feddygfa yng Nghaernarfon a bu ei mam, Betty Parry, wrth gwrs yn nyrs ysgol yn yr ardal. Mae gofal yn amlwg yn y teulu.

Lle i ddeuddeg sydd yn y cartref erbyn hyn, gyda deg stafell sengl ac un stafell ddwbl. Bydd un datblygiad pwysig dan yr oruchwyliaeth newydd gan y bydd gwasaneth gofal dydd yn cael ei gynnig. O gofio'r straen y mae llawer teulu sy'n gwarchod anwyliaid dano mae'n siŵr y bydd y cymorth hwnnw yn werthfawr. Bydd modd i rai ddod i Gartref Sant Teilo ar ôl amser brecwast a threulio'r diwrnod yno, a chael prydau bwyd yno gyda'r trigolion. Gellir cysylltu ag Ellis a Iola am ragor o fanylion ar (01248) 671105 (tŷ) neu (01248) 670353 (Sant Teilo).



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

Alwyn a Sarah Jones

**RACCA
PENISARWAUN**

- ★ Blodau ar gyfer pob achlysur
- ★ Dewis da o Lysiau Fferm
- ★ Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod



870605

**LLYSIAU AR
GYFER PICLO**

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

Ar ben arall y lein . . .

Mae rhywun yn dysgu rhywbeth newydd bob dydd ynglŷn â magu pysgod, ac mae'r criw yng Nghrawia wedi dod yn arbenigwyr yn y maes dros yr wyth mlynedd ers sefydlu'r fenter. Dysgasom wers arall tra'n casglu wyau eogiaid ym Mhenllyn yn ystod mis Rhagfyr y llynedd pan fu goruchwyliwr o Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnal arbrofion. Rhoddodd 100 o wyau yn gymysg â cherrig mân a gasglwyd mewn basgedi bychan o wahanol rannau o'r afon a chladdu'r cyfan wedyn yng ngro gwely'r afon a hynny mewn gwahanol safleoedd, gan gynnwys y Caledffrwd.

Yn ddiweddar codwyd y rhain a rhaid dweud mai boddhaol iawn oedd graddfa'r deori ar wahân i'r rhai a ddaeth o'r Caledffrwd gan fod y marwolaethau yno ddwywaith yn uwch nag unrhyw safle arall. Dywed yr Asiantaeth eu bod yn agos iawn i ddatrys achos y dirywiad yn stoc yr afon a gobeithiwn ninnau rwan — gan fod Cynllun Gweithredu'r Eog a'r Brithyll Môr hefyd ar fin cael ei gyhoeddi — y bydd pethau'n gwella'n sylweddol o hyn ymlaen.

Felly, fel y gwelwch, rydym yn hyderus am y dyfodol — hynny ydi os bydd lle inni 'sgota o gwbl gan fod pawb eisiau defnyddio'r adnoddau heb feddl dim am y 'sgotwr druan. Rwy'n cyfeirio yma am rai gweithgareddau sy'n ceisio cael caniatâd i ddefnyddio Llyn Padarn a'r diweddaraf yw'r cais i gael fferi neu gwch pleser o ochr pentref Llanberis i'r Gilfach Ddu ac ymlaen wedyn i Graig y Fulfran. Trip difyr iawn mae'n siŵr (a fydd yn rhedeg pob awr yn ystod misoedd yr haf o 11 y bore hyd 9 yr hwyr) mewn cwch 42 troedfedd yn cario oddeutu 50 o deithwyr. Wel, ia, neis iawn, meddech chi, ond ystyriwch y 'sgota sy'n digwydd nid yn unig ar lannau'r hen le ond beth am hogia'r torgoch? Mae'r dull yma o 'sgota wedi'i gynnal ers canrifoedd ond bydd llwybr y cwch pleser newydd yma yn mynd yn union ar draws mannau angori am y torgoch. Mae'n debyg nad yw traddodiad yn golygu dim heddiw — hynny yw os nad oes yna synnwyr yn rhywle.

Tra'n sôn am Lyn Padarn, roeddwn i'n rhoi sgwrs i gynweithwyr MANWEB yn

diweddar ac fe euthum a thorgoch wedi'i stwffio i'w arddangos a diddorol oedd clywed Selwyn Jones, Llanrug, yn cofio fel yr oeddent yn 'sgota'r torgoch yn ystod oriau'r nos er mwyn cael eu rhoi ar y trê cyntaf o Lanberis iddynt gyrraedd marchnad Manceinion erbyn deg fore trannoeth. Gwelais lythyr a ysgrifennwyd cyn yr Ail Ryfel Byd yn sôn sut y byddai'r brithyll o Lyn Padarn yn cael eu rhoi ar drên 5 y pnawn o Lanberis a byddai'r brithyll rheini ar fwrdd brecwast yn Llundain cyn naw y bore wedyn. Byddent wedi drewi cyn cyrraedd hanner ffordd pe baent yn cael eu hanfon ar y trê am Lundain heddiw — ac mae pethau wedi newid, er gwell, medda nhw!


Rwy'n cofio darllen — tra roedd pryniant hawliau yn mynd rhagddo — ym mhapurau pryniant Gerddi Bach, Pontrug fod i un o'r plant gael y tŷ a'r tir trwy ewyllys a'r llall yn cael y cloc mawr. Rwy'n gwybod yn iawn am y tir ond sut gloc oedd o tybed?

Mae'r Afon Llyfni bellach yn un o afonydd gorau'r wlad am frithyll môr. Rwyf wrthi'n paratoi ystadegau'r helfa am 1998 ac yn barod mae'r cyfrif dros 1,600. Ond er cystal ydyw mae yma gyfle gwyh i wella'r safon eto trwy gadw golwg ar pa bryd a pha safleoedd ynghyd â nifer y sils pan yn 'mudo i'r môr. Mae'n bur debyg bod rhywun yn ardal Nantlle ddim am inni wybod hyn gan i rywun ddwyn y rhwydi o'r Llyfni lle mae'n rhedeg o'r llyn — be nesa' 'sgwn i!

Do, fe ddaeth Mawrth 3ydd a dechrau'r tymor ar yr afon. Araf yw pethau wedi bod oherwydd y tywydd ond i'r rhai sydd wedi mentro mae yna dipyn o lwc — neu eu bod nhw'n genweirwyr medrus! Y brithyll mwyaf i mi glywed amdano oedd un a bwysai dros 2 bwys a ddaliwyd gan Norman Barnes o Gaernarfon. Mae rhai o aelodau Caernarfon wedi bod yn eithriadol o brysur yn torri llwybrau newydd ac yn clirio'r mieri yng nghyffiniau Glan Gwna a Llyn Garnage. Gyda'r gwaith a wnaed o Bontrug hyd Pontrhythallt mae graen eithriadol ar y bysgodfa — dalier pawb ati.

Fel y gŵyr pob 'sgotwr mor bwysig yw'r sewin i ni ac, o'r

Llechi Cerfiedig



Bydd arddangosfa drawiadol o gerfiadau llechi yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis o'r 1 Ebrill hyd 27 Mehefin 1999. Fe'u crewyd gan Ivor Richards o Fethesda sy'n gyn-swyddog gyda'r Llynges Fasnachol. Ei fwrriad yw . . . 'ceisio trawsnewid pethau barddonol yn ddelweddau di-eirau sy'n ysgogi ymateb emosiynol'.

Mae o wedi gweithio mewn amryw o gyfryngau gan gynnwys ysgythr, carreg ac efydd, ac mae ei gerfiadau llechi diweddaraf yn defnyddio'r llygad fel symbol gwreiddiol, lle mae'r gwylledig yn gwyllo fel gwylledydd ac yn rhoi teimlad dynol i galedwch y cyfrwng. Cerfia i'r llechen hynafol ddelweddau grymus a barddonol sy'n dwyn i gof yr hen gwestiynau na all dyn eu hateb.

'Mae fel petai'r llygad yn edrych yn ôl arnoch o'r tu mewn i'r llechen,' eglurodd. 'Pan gaf afael ar ddarn o lechen byddaf yn chwilio

diwedd, mae yna fforwm Cymru ar fin ei sefydlu gan ddiogelu a datblygu pob agwedd ynglŷn â'r 'sgodyn hyfryd hwn. Gobeithiwn gael rhywun i gynrychioli'r Gymdeithas ar y fforwm.

H. P. HUGHES

am ffurfiau ynddi ac yn aml bydd yna ddelwedd sy'n ceisio cerfio'i hyn sy'n guddiedig ynddi er mwyn ei ryddhau. Rydw i'n hoffi i'm cerfluniau fod o fewn cyrraedd y bobl, ond heb fod yn rhy amlwg. Rydw i am i'm gwaith danio'r dychymyg ac rydw i am i bobl edrych arno a gweld rhywbeth y gallant ei adnabod.'

Fel amryw, sy'n byw yng nghanol mynyddoedd gogledd Cymru, fe'i hysbrydolwyd gan y graig sydd o'i gwmpas ym mhobman.

'Rydw i'n hoffi gweithio mewn llechen am fod llechi o'm cwmpas ym mhob cyfeiriad. Mae'n gyfleus iawn. Darganfyddais bod gan y llechen briodweddau sy'n apelio ar y syniadau yr oeddwn i'n ceisio eu cyfleu. Maen nhw'n bedair miliwn o flynyddoedd oed ac mae'n debyg y byddan nhw'n dal yma mewn pedair miliwn o flynyddoedd eto!

'Dysgodd chwarelwyr lleol sut i mi weithio llechen — ac nid yw'n hawdd. Gellwch weithio ar ddarn am bedwar diwrnod ac yna fe glywch sŵn cracio a'r llechen yn hollti. Erbyn hyn, rydwi wedi dysgu taro'r llechen cyn dechrau gweithio arni a gellwch ddweud oddi wrth y sŵn a oes nam ynddi.'

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846



CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCW UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

Pawb a'i Farn



Geraint Edwards, Brynley Salisbury, Elfed Morris a Siôn Pritchard.

Ddydd Gwener, Mawrth 12fed, daeth rhaglen drafod y BBC 'Pawb a'i Farn' o Ganolfan Hamdden Caernarfon. Dewi Llwyd oedd yn cyflwyno gydag Alun Cairns, Ann Beynon, Dafydd Iwan a Betty Williams ar y panel. Roedd sawl un o Ysgol Brynrefail ymysg y gynulleidfa, sef Brynley Salisbury, Elfed Morgan Morris a minnau o flwyddyn 11; Siôn Pritchard o flwyddyn 13; Mr Euron Hughes yr athro Saesneg a Mlle Sandrine Berho yr athrawes Ffrangeg.

Trafodwyd sawl peth ar y rhaglen gan gynnwys mynediad i dir amaethyddol, polisi iaith Cyngor

Gwynedd a'r syniad o gael maes awyr i ogledd Cymru. Bwm yn ddigon hyderus i ofyn cwestiwn i'r Ceidwadwr Alun Cairns, sef 'os ydi'r blaidd Geidwadol yn cefnogi'r Gymraeg pam fod yr arwyddion sydd ar eu clybiau yn uniaith Saesneg?' Fel mae pob glweidydd (!) ni chefais ateb syth a throdd Cairns i ddweud pa mor dda mae'r Bwrdd iaith yn hybu'r Gymraeg.

Er hynny, cafwyd trafodaeth iach ac adeiladol. Yn wir, edrychaf ymlaen i weld y rhaglen yn dod yn ôl i'r fro yn y gyfres nesaf.

GERAINT EDWARDS (Bl. 11)

Sgriptio dros y Sul

Cyn y Nadolig es i, a thair ar ddeg o ferched o'r gogledd, am benwythnos yn Nhŷ Newydd, Llanystumdwy. Cwrs sgriptio i bobl ifanc a oedd yn cael ei gynnal gan Gwmni'r Frân Wen. Wedi penwythnos hwnnw roedd yn rhaid i mi ddatblygu fy syniadau a sgriptio drama.

Derbyniais lythyr fis yn ôl yn fy llongyfarch am gael fy newis, gyda phedair arall oedd ar y cwrs cynt, i fynychu penwythnos a oedd yn ddatblygiad o'r cwrs cyn y Nadolig.

Penwythnos diwethaf bwm yn

Gymnasteg Cymru

Bu tair merch — Kathryn Pike, Lucy Stevenson a Nia Wakeham — ac un bachgen, Mathew Pike, yn cynrychioli Eryri yng nghystadlweddau i ddisgyblion profiadol yn Ne Cymru yn ddiweddar. Chweched oedd tîm y merched a Mathew yn dod yn drydydd yn ei adran ef. Llongyfarchiadau i bawb.

Nant Gwrtheyrn ar y cwrs hwnnw. Mwynheais y distawrwydd oedd yn y Nant a'r amser oedd gen i i eistedd ar y traeth yn ysgrifennu, eistedd yn y parc yn ysgrifennu ac hyd yn oed yn y gegin yn ysgrifennu!

Roedd y penwythnos yn brofiad ardderchog i mi ac oedd o'n gyfle i mi ddatblygu fy niddordeb yn ogystal â chyfarfod eraill sydd hefyd yn ymddiddori mewn sgriptio ar gyfer y theatr. Trueni mai dim ond penwythnos yn unig ydoedd.

BETHAN WILLIAMS (Bl. 13)

NEWYDDION O YS

Tymor Eisteddfodau'r Urdd

Unwaith eto mae'n amser cystadlu yn eisteddfodau'r Urdd gyda nifer fawr o'r disgyblion yn cymryd rhan.

Yn yr Eisteddfod Cylch dan 15 oed daeth llwyddiant i'r canlynol: parti dawnsio gwerin Cenin (1); grŵp llefaru (1); unawd bechgyn dan 15 oed, Huw Alun Foulkes (1); unawd alaw werin dan 15, Lois Hughes (1); llefaru unigol dan 15, Lois Hughes (3); ymgom dan 15, grŵp Huw (1), grŵp Trystan (2).

Aeth y cystadleuwyr ymlaen i'r Eisteddfod Sir a mawr oedd y dathlu pan ddaeth Huw Foulkes yn gyntaf. Da iawn ti, Huw, a phob lwc yn Llanbedr Pont Steffan. Daeth y parti dawnsio gwerin yn ail a mawr yw ein diolch i Mrs Judith Hardin am hyfforddi'r parti.

Wrth gwrs roedd y disgyblion dan 19 oed yn cystadlu yn Eisteddfod yr Aelwydydd a daeth llwyddiant i'w rhan hwythau hefyd — unawd pres dan 19: Jennie Lyn Morris (1); grŵp detholiad llafar: grŵp Elfed (1); unawd bechgyn dan 19: Elfed Morris (2); unawd alaw werin dan 19: Elfed Morris (2); unawd merched dan 19: Michelle Roberts (2); llefaru unigol dan 19: Michelle Roberts (3); deuawd dan 19: Michelle ac Elfed (2); grŵp llefaru dan 19: parti Alaw (2). Pob lwc i Jennie a'r grŵp detholiad llafar yn Llanbedr Pont Steffan hefyd.



Huw Alun Foulkes



Ymgom — Huw, C



Lois Hughes



Parti dawns

APÊL I GYN-DDISGYBLION A CHYFEILLION

Rydym gwir angen arian i wella'r neuadd ac yn y broses o wneud cais i'r Loteri Genedlaethol am gymorth ond, wrth gwrs, mae'n rhaid codi arian ein hunain hefyd.

Os buasech yn hoffi ymuno â'r Clwb Cant (£12 y flwyddyn) byddwn yn ddiolchgar iawn am eich cefnogaeth.

Codwch y ffôn i ymaelodi. Byddwn yn falch iawn o glywed gennych.

(01286) 672381



SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwc na chwysu

Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol

CREDWCHI! HOLWCHI!
ffonlwch (01286) 830609
— **TENEUWCH** —
SLIM CHWIM MEWN DIM!

Angen cymorth gyda'ch ffurflen treth incwm?
Angen gwell sustem ariannol ar gyfer eich busnes?
Angen cymorth gyda'ch cyfrifon?

Cysylltwch â

GORONWY HUGHES

Tel/Ffacs (01286) 674839

E-Bost gorhug@global.net.uk

Gweinyddiaeth Ariannol i Fusnesau Bach

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyraains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

YSGOL BRYNREFAIL



eri, Mark a Natalie.



Jennie Lyn Morris



o gwerin Cenin

Cystadleuaeth Gymnasteg Eryri

Bu 38 o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn y gystadleuaeth yma. Pawb yn ystwyth a ffit ac yn gwneud eu gorau glas.

Tim merched Bl. 7 yn dod yn bedwerydd; Bl. 8 yn dod yn wythfed; a Bl. 9 yn dod yn seithfed.

Tim bechgyn Bl. 7 yn dod yn wythfed; Bl. 8 yn dod yn bedwerydd; a Bl. 9 yn dod yn nawfed.

Roedd dau ddisgybl yn disgleirio i'w timau, sef Dafydd Pritchard Bl. 9, a Sioned Jones Bl. 9. Da iawn chi.

Ar lefel uwch, sef y lefel canolradd, cafwyd perfformiadau arbennig gan Owain Williams Bl. 10 a Gemma Williamson Bl. 11. Llongyfarchiadau i'r ddau a chymeradwyaeth i'r pedwar arall, Cadi Ostler a Sarah Roberts Bl. 8; Simon Chong Bl. 9; a Michelle Clarke Bl. 11 a gymerodd ran.

Ymweliad y Beirdd

Bore dydd Mawrth, 2 Mawrth, cafodd myfyrwyr y chweched dosbarth fodd i fyw pan ymwelodd criw o feirdd â'r adrannau Cymraeg a Saesneg.

Bu Twm Morys ac Iwan Llwyd, dau o feirdd amlycaf Cymru, yn ogystal â Louise Halfe o Canada, a David Lloyd sydd hefyd o Canada ond a'i deulu yn hanu o Gymru, yn ein diddanu am ddwy awr.

Bu'r pedwar yn trafod eu gwaith gan ddweud pa fath o agweddau sydd yn eu hysgogi i farddoni.

Yn sicr bu hyn yn brofiad gwerth chweil, yn llawn hiwmor ac yn hwb enfawr i unrhyw un ohonom sydd â'n bryd ar gychwyn barddoni.

'Sgwn i a fydd yna fardd o Frynrefail yn cystadlu ar Dalwrn y Beirdd yn y dyfodol?

JENNIE LYN MORRIS (Bl. 12)

Actorion yn yr Ysgol

Ddydd Mawrth, 23 Mawrth, daeth dau actor, Maldwyn John ac Iwcs, i'r ysgol. Bu'r ddau wrthi'n brysur yn diddanu disgyblion 8E ac 8I gan ddarllen llyfrau Cymraeg a Saesneg i ni.

Roedd pawb wedi cynhyrfu wrth weld a chlywed yr enwogion yma'n rhoi blas ar lyfrau fel *Cyw Haul*, *United* a *Cell 13* i ni.

Darllenodd Iwcs dudalennau doniol a gofynnodd Maldwyn John iddo ddarllen y llyfr *Cell 13* oherwydd ei fod wrth ei fodd yn gwrando arno'n siarad mewn acen 'Brookside'!

Cawsom lawer o hwyl yn gwrando a mwynhau'r jôcs a hoffai pawb ddiolch yn fawr i'r ddau am roi eu hamser prin i ni. Mae hyn wedi gwneud llawer i'n hybu i ddarllen mwy. Brysiwch yn ôl!

HELEDD JONES (Bl. 8)



Ymgom — Trystan, Cenin, Ffion, Dafydd a Lowri

Llwyddiant Gethin



Efallai eich bod yn cofio'r adroddiad y mis diwethaf am y rhai a fu'n fuddugol yn rownd Gwynedd yng nghystadleuaeth y Cynulliad.

Bellach gallwn gyhoeddi gyda balchder fod Gethin Vaughan Jones, Bethel (Bl. 9) wedi dod yn ail trwy Gymru gyfan yn adran ysgrifenedig y gystadleuaeth bwysig yma. Llongyfarchiadau calonnog iddo am ei gamp.

Brynrefail v Llandrindod

Ddydd Mawrth, yr unfed ar bymtheg o Fawrth fe chwaraewyd gêm gwpan rhwng Brynrefail a Llandrindod. Rownd go-gynderfynol Cwpan Cymru dan bedair ar ddeg oedd hi ac fe enillodd Brynrefail o ddwy gôl i un.

Wedi tu chwarter awr o chwarae fe roddodd un o amddiffynwyr Brynrefail gic o'r smotyn i ffwrdd ac roedd pawb yn poeni ac yn gobeithio y gallai Gavin Davies, ein golwr, ei harbed rywsut. Cymerwyd y gic a deifiodd Gavin i'r chwith i wneud arbediad campus i achub y tim. Ond doedd ei waith ddim drosodd, rhoddodd gic i'r bêl i ben arall y cae ac yno'n disgwyl roedd Aaron Watkinson i roi'r bêl yn y rhwyd. Roedd hi'n dal yn un gôl i ddim i Frynrefail erbyn y toriad ond roedd y gêm ymhell o'i hennill. Yn fuan yn yr ail hanner rhoddodd Eifion Williams gic mor nerthol i'r bêl nes iddi fynd heibio pob amddiffynwr a'r gôlgeidwad i gefn y rhwyd — felly dwy i ddim! Er i Landrindod sgorio fe ddaliodd yr amddiffyn yn gryf i'n hanfon i'r rownd nesaf.

DAFYDD PRITCHARD (Bl. 9)

POB HWYL I DDISGYBLION YR YSGOL YN FLORIDA!

Mae'n siŵr y bydd digon o straeon i gynnal tudalennau'r Eco pan ddychwelant!

LONDON GARAGE

FIAT CWM-Y-GLO FIAT

ARBENIGWYR TRIN CEIR FIAT



GORSAF PRAWF MOT

POB MÊC — CEIR A FANIAU BACH GWASANAETH ac ATGYWEIRIO

CROESEWIR CWSMERIAID HEN A NEWYDD

GALWCH MEL (Roberts) ar (01286) 870234

neu Ffacs: (01286) 870066

AR AGOR:

Llun - Gwener: 8.30 a.m. - 5 p.m.

Sadwrn: 8.30 a.m. - 12.00



Yn yr ardd!

WIL G. ROBERTS

Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMBOL

AM OFFER Tŷ A GARDD . . .

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

L.M.F. (2) gan Y GWALCH

Roedd yna ddwy res o welyau yn y cwt, y naill uwchben y llall, a rhingyll a oedd yn byw mewn ystafell ar y pen yn gofalu amdanynt. Roedd Norman yn disgwyl i dymer amrwd fod ar hwnnw yn cael ei darfu ar ôl i'r goleuadau gael eu diffodd, ond canfu mai un cytbwys diri-dano iawn oedd Sergeant Brace. Roedd ganddo lamp yn ei law a dangosodd i'r ddau y ffordd i'w gwelyau; Norman i'r un isaf yn y talcen a'r llanc yn rhywle yn y canol.

Doedd Norman ond prin wedi eistedd ar yr erchwyn pan glywodd lais wrth ei ochr o'r tywyllwch yn holi o ble roedd o wedi dod.

'Ludford Magna,' meddai yntau.
'Oh, the Berlin milk run.'

Ond cyn iddo gael cyfle i ddweud mwy daeth swm y 'doodle' uwchben. 'Pa mor aml mae rheina yn mynd?' gofynnodd Norman.

'Maen nhw'n rhedeg i amserlen 'run fath â'r Green Line, bob rhyw chwarter awr. Mae nhw'n syrthio'n fyr weithia.'

'Ydach chi wedi cael un?'

'Dim nês na ryw filltir. Ond Duw a'u helpo nhw yn Llundain. Ond waeth i ti heb â phryderu. Os oes 'na un am ddod i dy wely di mi ddaw. Beth bynnag, yr adeg i ti ddechra poeni ydi pan fydd yr injan yn stopio.'

Daeth llais ar draws o rywle yn y cwt, 'Cauwch y'ch blydi cega i ni drio eu anghofio nhw!'

Pan ddeffrodd Norman drannoeth sylwodd ar goes ddu yn crogi o'r gwely uwchben ac ar ei draed wrth ei ochr, yn barod wedi gwisgo, roedd ei holwr y noson cynt. Roedd y gair CANADA ar ben ei lawes ac yn is i lawr glwt glanach na'r gweddill o'r defnydd yn dynodi fod yna dair streipen wedi bod yno rywdro. Roedd yna glwt glân felly uwchben ei boced chwith hefyd ar ffurf bathodyn peilot.

'Mi fydd yn well i ti ei symud hi,' meddai. 'Mi rydan ni i fod ar y sgwâr neu mi fyddi ar "jankers" gan McDermot, y bastard!'

'Rwy'n credu fy mod i wedi ei gyfarfod o yn barod,' meddai Norman.

Ar hynny daeth hogyn du i lawr o'r gwely uwchben a'u cyfarch yn foesgar.

Erbyn hynny roedd dynion yn llifo allan o bob cwt ac yn anelu i gyfeiriad y sgwâr. Sylwodd Norman wrth ymuno â hwy fod eu bathodynau i gyd wedi eu stripio ac

roedd o'n teimlo'n amheuthun yn eu mysg.

Safodd y cwbl yn rhengoedd ar y sgwâr tra canai'r bugle yn y ddefod o redeg y lliwiau, ac roedd y cwbl o dan orchmynion F/Sgt. McDermot.

Cerddodd hwnnw wedyn yng nghwmni swyddog i fyny ac i lawr y rhengoedd gan roi cic i sodlau ambell un gan ddweud wrtho am gael dorri ei wallt. Yna gorchmynodd y rhai a oedd wedi cyrraedd y diwrnod cynt i roi un cam ymlaen. Yr adeg honno y sylwodd Norman fod llanc y cap gwyn yn y rheng o'i flaen. Gwelodd McDermot yn camu ato ac yn cythru i'w gap a thynnu'r clwt gwyn oddi arno gan ddweud:

'You won't need this here, laddie.'

Yna cyhoeddodd wrth weddill y newydd-ddyfodiaid eu bod i fynd i siop y teiliwr.

Roedd yna ddwy WAAF yn y fan honno hefo sisyrnau a chafodd yr hogiau orchymyn i dynnu eu cotiau, ac ymhenn dim roedd y genethod wedi gwneud y rheiny yn foel o fathodynau.

Roedd Norman erbyn hyn ar ei gythlwg gan nad oedd wedi cael tamaid ers y diwrnod cynt. Aeth ar draws i'r NAAFI i gael paned a 'wad', ac ar ei ffordd yn ôl croesodd y sgwâr. Pan ar ei ganol clywodd waedd o'r ymyl: 'That man...'. Pan drodd gwelodd McDermot yn ei annog i ddod ato, ac erbyn hynny — wedi ei ddiosg o arwyddion ei gynsaffle — doedd Norman chwaith ddim ond baw y ddaear a sicrhawyd ef yn ddigamsyniol o'r ffaith honno. Ei drosedd oedd cerdded ar draws y sgwâr a oedd, yn y fan honno, yn amlwg yn dir sanctaidd. Gorfodwyd ef i ddychwelyd a cherdded o'i gylch deirgwaith a chanfyddodd ei hun ar 'jankers' yn dychwelyd yno gyda'r nos i wneud *close order drill* yng nghwmni eraill oedd wedi troseddu mewn rhyw fodd. Ar ben hynny cawsant y gwaith o lanhau'r swyddfeydd a chyflenwi'r poteli inc ar y desgiau.

Yn y cwt y noson honno dywedodd Canada: 'You've become McDermot's blue eyed boy all of a quick.'

Y cwbl ddywedodd Norman oedd y dylai rhywun roi bwled yn y dyn.

Rhoddodd ei gydymaith ei law o dan ddillad ei wely a thynnodd oddi yno lawdryll Smith & Wesson. 'Gymeri di fenthyg hwn?'

'Lle cefai'ti afael ar hwnna?'

'Roedden ni'n cario un bob amser ar "fighters". Mi fasa McDermot yn hoffi cael ei ddwylo arno, ond chaiff o ddim.'

Doedd hi ddim yn fater hawdd i gadw cannoedd o ddynion anffodlon, fel yn y gwersyll hwnnw, yn ddiddig ddydd ar ôl dydd ond doedd yr awdurdodau ddim yn fyr o ganfod dyletswyddau iddynt i ladd amser: cynorthwyo'r cogyddion i ddeor pys a phlicio tatws, glanhau lloiau a thaflu sbwriel, a hel papur gwastraff ar led y gwersyll. Roedd si bod rhai yn gallu mynychu dosbarthiadau trin radio a ieithoedd. Doedd yna fawr, fodd bynnag, yn ffordd Norman a oedd wedi bod yn glerc i arwerthwr yn Newcastle-on-Tyne. Roedd Brace yn darllen rhestr y 'detail' bob bore ar gyfer eu didoli i wahanol swyddi, ac yr oedd pawb yn gobeithio cael mynd i weithio ar y dociau yn Sheerness. Golygai hynny daith ar y trên a newid golygfa am ddiwrnod.

Yn y fan honno y canfyddodd Norman am y tro cyntaf fod yna warthnod arnynt. Wrth iddynt gynorthwyo i lwytho'r llongau a symud nwyddau, ni chymerai'r gweithwyr rheolaidd na'r morwyr fawr o sylw ohonynt, a thueddent i'w trin fel gweision, yn enwedig yr hogyn du, a alwent yn Jim Cro.

Ar ôl bod ar y daith yma amryw o weithiau, dechreuodd Norman dynnu sgwrs â gŵr mewn tipyn o oedran a fyddai ar y trên. Yr oedd yn un o griw o weithwyr a ddeuent i'r gwersyll yn ddyddiol mewn bws oddi allan. Bert Grimes oedd ei enw a sylwodd Norman nad oedd ei agwedd tuag ato mor ddirmygus â'r gweddill. Yr oedd yn gyfeillgar a chymwynasgar ac nid oedd yn holwr chwaith. Yr oedd Norman erbyn hynny wedi sylweddoli nad oedd yr un o'i gymdeithion yn y cwt yn awyddus i ddadlau manylion am yr amgylchiadau a'u goddiweddodd i lano yn eu sefyllfa bresennol. Yr oedd yna rhyw fath o 'code' anysgrifenedig yn gweithredu yn reddfod fel ag yn y Foreign Legion.

Yn gyfochrog â'r gwersyll roedd maes awyr bychan o'r hwn yr adeg honno y gweithredai Typhoons ar draws y Môr Udd i ddinistrio adrannau arfog y gelyn a oeddent yn llesteirio symudiadau ein byddinoedd i mewn i'r tir yn Normandi. Canfu Norman ei hun yn rhan o un 'detail' a anfonwyd yno i gynorthwyo i atgyweithio'r 'runway' ac, yn rhyfedd ddigon, dodwyd ef yn yr un criw â Bert Grimes. Ganol dydd yr oeddent yn bwyta gyda'i gilydd ac ar ôl rhai dyddiau daethant i sgwrsio'n rhydd.

'Mi fydda i'n ei gael o'n gythral o beth i hogia 'run fath â chi gael eich

trin fel hyn ar ôl bod trwy gymaint o erchyllterau,' meddai Bert un amser cinio. 'Wrth gwrs, mae gen i syniad go lew sut beth ydi o. Mi fuo mi yn y rhyfal arall 'na, wyddost ti.'

'Y fawr — tewch â deud?'

'Do, ond ar lawr roeddwn i. "Shell-shock" oedden nhw'n galw eich cyflwr chi yr adeg honno ac roedd rhai yn cael eu saethu ar ôl iddyn nhw fynd yn dipiau.'

'Gan eu pobol eu hunain?'

'Ia'n tad. Mi rydwi'n cofio yn Bourlon Wood i ryw hogyn ddianc i'r cefn — methu'n glir â dygymod â'r uffern a oedd yno. Ond cafodd ei ddal a'i lusgo'n ôl. Mi gafodd ryw fath o *Court Martial* — dim ond ffurf wyddost ti — gan fod y ddeddfryd wedi'i phennu'n barod — ei saethu yn y bora. Ond pan ddaeth yr awr fedra nhw ddim cael yr un o'n criw ni i wneud y weithred. Gorfu iddyn nhw gael *firing party* o gatrawd arall, a wna i byth anghofio'r achlysur. Roedd y bataliwn wedi'i thynnu yn rhengoedd ar dair ochr y sgwâr i wyllo, a hyd yn oed pan oedd yr hogia rheini wedi codi eu gynnu ac yn disgwyl am y gorchmyn doedd yna ddim copa walltog yn credu eu bod nhw am wneud y peth. Ond felly yr oedd hi — rhyw beiriant mawr ydi'r fyddin, wyddost ti, am y rhan fwya allan o reolaeth ac amddifad o gyfrifoldeb.'

Gofynnodd Norman gwestiwn amheuthun i lanc ugain oed:

'Doedd yr hogia rheini ddim yn teimlo'n annifyr wedyn?'

'Wel, mae'n siŵr gen i,' meddai Bert, 'ond doedd yr un ohonyn nhw'n gwybod i sicrwydd pwy oedd y llofrudd gan eu bod nhw'n rhoi un blanc ymysg y chwe catran oedd yn cael eu didol iddyn nhw. Doedd neb yn gwybod pwy oedd wedi'i thanio.'

Roedd Norman yn mwynhau cael mynd i'r maes awyr yng nghwmpeini Bert Grimes ac erbyn hynny roedd wedi dweud llawer o'i hanes wrtho. Ond doedd dim modd anghofio'r rhyfel am funud gan fod y bomiau hedegog yn dal i ddod, er nad oedd angen eu harswyd tra roedd eu peiriannau yn rhedeg. Ar y maes ei hun roedd y Typhoons yn mynd a dod a rhai ddim yn dychwelyd ar ôl pob siwrne. Wrth weld y peilotiaid yn mynd i mewn ac allan o'r *cockpits* dyfalai Norman weithiau pa mor hir y buasai rhai ohonynt yn gallu cynnal heb fynd i gyflwr y rhai oedd yn y gwersyll.


Un diwrnod gofynnodd Bert iddo'n sydyn:

'Fyddi di ddim awydd mynd "dros y bryn" weithia?'

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches

★ Byrddau Ffasia


★ Cladio

★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES



Cig Bethel



OEN CYMREIG LLEOL CYFAN
AM £1 Y PWYS



PORC LLEOL
AM 75c Y PWYS



PRISIAU ARBENNIG AM
GIG EIDION LLEOL

Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763

“Tros y . . .”? Gormod o ryfgy. Mae yna ormod o gapiau gwynion yn crwydro o gwmpas.

‘Beth sy’n mynd i ddigwydd i ti wyt ti’n meddwl?’

‘Cael fy anfon i ryw faes awyr i lanhau’r tai bach.’

Bu Bert yn ddistaw am funud. ‘Neu dy anfon i’r Dwyrain Pell i orffen rhyfel y Japs.’

‘Sut felly?’

‘Hefo’r fyddin. Mae’n ddigon hawdd trosglwyddo pobl ond newid yr *uniform* a rhoi *rifle* yn eu dwylo nhw. Mae o’n cael ei wneud, coelia fi.’

Daeth fflach o sylweddoliad i Norman ar drawiad. Roedd un neu ddau o wynebau cyfarwydd wedi diflannu o’r cwt yn ystod y diwrnodiau a hynny heb gwestiynau Roedd cap gwyn wedi mynd — yn ôl i’w ffarm — os gwir hynny hefyd.

‘Wel, sut bynnag, gwna dy benderfyniad cyn iddi fynd yn rhy hwyr. Ond os byth yr ei di dros y weiren,’ meddai Bert wedyn, ‘paid ar boen dy fywyd â mynd adref. Yn y fan honno y byddan nhw’n chwilio gynta amdanat ti.’

Ac ar hynny y gadawyd y pwnc; hynny ydi, tan y noson ddilynol pan ddarganfuwyd nad oedd yr hogyn du wedi dychwelyd a hithau ar ôl awr y diffodd golau. Aeth Sgt. Brace o gwmpas y cwt i holi hwn a’r llall ac yn ddiweddarach daeth dau gap gwyn, a rhoddwyd Norman a Canada drwy’r gogr — ond i ddim pwrpas. Ni ddadlenwyd y dirgelwch hyd drannoeth pan ddaeth Canada i mewn wedi brecwast ar ei ffordd i Sheerness.

‘Mae Jim Cro wedi’i chael hi,’ meddai heb ragymadrodd. ‘Cael ei ddal yn trio mynd dros y weiran neithiwr. Roeddwn i’n amau fod yna rywbeth ar ei feddwl o ers tro. Roedd o wedi mynd yn ddistaw iawn yn ddiweddar. Welwn i byth mohono eto. *Poor old melon — hard cheese.*’

(capiau gwyn = heddlu’r RAF)

O.N. Mae cyfieithydd o’r Sorbonne yn trosi nofel ddiweddar Y Gwalch, Nes Adref, i’r Llydaweg.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyr gwobrau Chwefror oedd: £20 Huw Williams, Cefn Gwyn (69); £10 Elizabeth Jones, Tyddyn Oer (92); £5 yr un i Wyn Evans, Parciau Rhos (194); Idris Morris, Fachell (26); Lynwen Morris, Perthi (40); Hefin Jones, 7 Stad Eryri (113); Gwyneth Price, Bro Eglwys (94); Mair Price, Caernarfon (49); Joyce Pugh, 9 Tan-y-buarth (130); Elizabeth Watkin, Ty’n Lôn (131).

YR URDD. Llwyddiannu fu ymdrechion adran Bethel yn Eisteddfod Gylch yr Urdd yn ddiweddar. Cafwyd cystadlu brwd gan y plant wedi wythnosau o ymarfer. Aeth dau barti llafariu, dau barti canu, côr, tri grŵp ymgom, sawl deuawd, unawdwyr canu a llafariu, unawdwyr chwythbrennau, offerynnau pres a phiano, yn blygeiniol fore Sadwrn, Mawrth 5ed, i Ysgol Brynrefail ar gyfer y rhagbrofion. Wedi Eisteddfod arbennig o dda a hwyliog, daeth adran Bethel adref gyda sawl gwobr. Mae’n rhaid crybwyll Noson o Berfformio holl gystadlaethau’r Urdd a gynhaliwyd yn Neuadd y Pentref ar y nos lau cyn yr Eisteddfod Gylch. Braf oedd gweld egni a brwdfrydedd y plant a mwynhad amlwg trigolion y pentref. Bu sawl aelod o’r adran yn llwyddiannus yn yr Eisteddfod Symudol a hefyd, yn ogystal â thystysgrifau di-ri yn dod yn ôl i Fethel o’r cystadlaethau Celf a Chrefft. Diolch i bawb fu’n helpu i hyfforddi a helpu i drefnu’r Eisteddfod.

CYDYMDEIMLO. Ddydd Gwener, 12 Mawrth, yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs Eirianwen Pritchard, 1 Bro Rhos. Mrs Pritchard oedd yr olaf o ddeg o blant y diweddar Hugh a Jane Thomas, Llwyn Celyn, Saron ac fe fu’n byw ym Methel gydol ei hoës. Bu’n gweithio fel cymorth cartref

gyda nifer o henoed yr ardal a bu eu gwerthfawrogiad hwy o’i gofal a’i charedigrwydd yn fawr iawn. Estynnir pob cydymdeimlad ag Eurwyn a’r teulu yn eu profedigaeth. DIOLCH. Dymuna Eurwyn a’r plant, 1 Bro Rhos ddiolch i’w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cydymdeimlad a’r caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam, nain a hen nain annwyl iawn. Bydd y rhoddion hael a dderbyniwyd yn mynd i Feddygfa Llanberis a Ward Aran, Ysbyty Gwynedd.

MERCHED Y WAWR. Dathlwyd Gŵyl Ddewi nos Fercher, Mawrth 10, yng Ngwesty Bulkeley, Biwmares. Croesawyd pawb gan y llywydd, Mrs Anne Elis. Ar ôl pryd o fwyd blasus diddanwyd yr aelodau gan y gŵr gwadd, Mr Gerallt Lloyd Owen. Diolchwyd iddo gan Mrs Anne Elis.

Enillwyr y raffl oedd Mrs Rita Williams, Mrs Eirlys Sharpe, Mrs Margaret Williams, Mrs Elisabeth Evans, Mrs Gwyneth Williams a Mrs Gwyneth Jones. Llongyfarchwyd Mrs Anne Elis ar gael ei hethol yn aelod o is-bwyllgor addysg Merched y Wawr. Y cyfarfod nesaf fydd Gwaith Siwgr gyda Mr William Jones, Rhostrehwfa ar nos Fercher, Ebrill 14.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Fawrth, 16 Mawrth, yn festri Cysegr cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni’r Parchedig H. Gwynfa Roberts gyda sgwrs am ei gasgliad o hen boteli, rhai ohonynt yn boteli cyfarwydd i’r gynulleidfa ac eraill yn rhai hen, prin a gwerthfawr. Diolchwyd i Mr Roberts gan Mr James, Bro Eglwys.

PRIODAS. Ddydd Sadwrn, 27

Mawrth, yn y Cysegr priodwyd Sioned Owen, Cefn Cynrig â Paul. Dymuniadau gorau i’r ddau yn eu bywyd priodasol ac yn eu cartref newydd yng Nglanwydden, ger Llandudno.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre’r Coed. 870580

CYDYMDEIMLO. Estynnwn ein cydymdeimlad i Mr Norman Williams, Godre’r Coed yn ei brofedigaeth o golli ei frawd, y diweddar Emrys Williams, Bayston Hill, ger yr Amwythig.

EGLWYS M.C. BRYNREFAIL. Trefn oedfaon mis Ebrill:

4. Sul y Pasg. Parchg Iorwerth Jones Owen, Caernarfon (2). Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.
11. Mr Richard Lloyd Jones, Bethel (10)
18. Parchg W. R. Williams, Y Felinheli (5.30)
25. Parchg Glyn Tudwal Jones, Bangor (5.30)

Rihysal Cymanfa Dosbarth Padarn am 6.45

Nos lau, Ebrill 15fed, bydd cyfafod cyntaf y tymor Gymdeithas y Chworydd yn y Festri am 7 o’r gloch. Y siaradwr gwadd fydd Mr Rol Williams, Waunfawr.

DRAENOG

Aeth dyn o Lanberis i’r ‘CLOSING down sale yn siop y Pioneer. Prynnodd jar o nionod picl . . . ond siom fawr gafodd o amser swper wrth sylweddoli nad oedd yna yr un nionyn yn y jar gan mai jar finegr a brynnodd!’

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant yn rhoi gwerth eich arian.

Cartref a Chynnwys

Teithio • Car

Anifail Anwes

Gwasanaeth Torri Lawr

Age Concern (Wales)

Enterprises Limited

Ffordd Santes Helen

Caernarfon

Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

AGE
Concern

INSURANCE
SERVICES

All our profits support the work of Age Concern

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

EISTEDDFOD. Cynhelir Eisteddfod Plwyf Llanberis yn festri Capel Coch, ddydd Sadwrn, Mai 15. Cofiwch mai dyddiad cau y cystadlaethau ysgrifenedig yw Mai 1. Ceir rhai o'r testunau gwaith cartref yn y rhifyn hwn ac roedd y gweddill, sef cystadlaethau llenyddol ar gyfer oedolion, yn y rhifyn diwethaf o'r Eco. Os nad yw'r rhifyn hwnnw wrth law gennych, cysylltwch â'r ysgrifennydd, Mrs Heather Jones, 7 Coed y Glyn, Llanberis (Ffôn: 872569) am fanylion pellach.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cafodd aelodau'r Gymdeithas eu swper Gŵyl Ddewi yn y Bistro nos Fawrth, Mawrth 9. Y Parchedig Harri Parri, Caernarfon oedd y gŵr gwadd. Mr John H. Hughes oedd yn llywyddu a diolchwyd i Mr Parri gan Mr Hugh R. Jones.

CAPEL COCH. Bydd y cyfarfod plant yn aildechrau wedi gwyliau'r Pasg ar brynhawn Mawrth ac yn cael ei gynnal bob wythnos hyd at wyliau hanner tymor yr ysgol.

DYDD GWEDDI. Cynhaliwyd oedfa Dydd Gweddï Chwioryd y Byd yn festri Capel Coch nos Wener, Mawrth 19. Daeth cynulleidfya gref o eglwysy'r pentref at ei gilydd. Mrs Falmai Pritchard oedd yn arwain yr oedfa a Mrs Iona Jones oedd yr organyddes. Cafwyd anerchiad gan Mrs Nancy Jones a chymerwyd rhan hefyd gan aelodau'r gwahanol eglwysy.

DIOLCH. Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Muriel Lloyd, Pwllheli (32 Stryd Fawr, Llanberis gynt), ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth drist o golli un oedd mor annwyl ganddynt. Diolch am y galwadau ffôn, yr ymweliadau a'r llu o gardiau a llythyrau, sy'n rhy niferus i'w hateb yn unigol. Diolch hefyd am y rhoddion ariannol anrhydeddus a dderbyniwyd tuag at Ward Llŷn, Ysbyty Gymunedol Bryn Beryl, Pwllheli er cof amdani. Diolch i E. W. Pritchard, Central Garage am eu trefniadau trylwyr.

DIOLCH. Dymuna Myrddyn Pritchard, 1 Ffordd Padarn ddiolch i bawb am y cardiau, galwadau ffôn, anrhegion a'r holl ddymuniadau da a dderbyniodd ddiwrnod ei ben-blwydd yn 80 oed ar Chwefror 22. NSPCC. Cynhaliwyd bore coffi yn Y

Bistro ar ran cangen Bro Peris o'r NSPCC ar Ionawr 31. Diolch i bawb a gyfrannodd, a diolch i Danny a Nerys yn Y Bistro. Casglwyd £62. **CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS.** Nos Lun, Chwefror 22, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Côr am 1999, gan ddiolch o galon i Mr Gwynfryn Griffiths am ei waith rhagorol yn y gorffennol. Mr Aneurin Jones fydd cadeirydd newydd y côr am y ddwy flynedd nesaf gyda Mr Elwyn Wilson Jones yn is-gadeirydd. Rydym eisoes wedi croesawu Mrs Mair Huws fel ein arweinydd ac Arwel fel is-arweinydd. Yr ysgrifenyddes — am y drydedd gwaith yn olynol — yw Mrs Hefina Jones a diolchwn iddi hithau am ei gwaith. Trysorydd, am yr ail waith gyda llawer iawn o ddiolch, yw Mr Emerson Hughes gyda'i wraig, Awel, yn gofalu am y llyfrau.

Dyma aelodau eraill o'r côr sydd â rhan arbennig i'w cyflawni — cyswllt y wasg: Goronwy Lewis; cynilion: Gwilym Evans; trefnwyr y 'loto': John Williams; trefnydd dillad: Mac Jones; llyfrgellydd: Medwyn Lloyd Roberts; trefnwyr bysiau: Michael Griffiths; trefnwyr llwyfan: Roy Griffiths. Aelodau eraill o'r pwyllgor yw Aneurin Jones, Dafydd Huws, Elwyn Jones, Emerson Hughes, Alaw Hughes, Goronwy Lewis, Gwilym Evans, Hefina Jones, Medwyn Roberts, Michael Griffiths a Bob Lloyd.

Bu'r côr mewn cyngerdd Gŵyl Ddewi yn Llanrwst nos Wener, 5 Mawrth ac ar nos Sadwrn, 20 Mawrth mewn cyngerdd ym Mhen-y-groes, Arfon, casglwyd swm o £427 tuag at 'Well Projects Healing & Peace Group' gyda llawer o ddiolch am y croeso — a'r wledd!

Dymunwn wellhad buan i Mr Idwal Williams, Cwm-y-glo gan obeithio ei weld yn ôl yn fuan iawn. Estynnwn ein croeso cynhesaf i aelodau newydd sydd wedi ymuno â ni.

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Mrs Beverley Anwyl, Nant Peris yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr, Ted, a fu'n ffyddlon iawn i'r côr am nifer o flynyddoedd. Coffa da amdano.

(GORONWY LEWIS)
CYMDEITHAS EGLWYS ST. PERIS A ST. PADARN. Dathlwyd Gŵyl ein Nawdd Sant nos Iau, Mawrth 4, gyda Noson Lawen draddodiadol yn

y Rheithordy, trwy garedigrwydd y Parchg a Mrs Philip Hughes. Dechreuwyd trwy weddi dan arweiniad y Rheithor a chroesawyd yr holl aelodau i'r noson arbennig gan y cadeirydd, Mrs Ann Parry-Jones. Mwynhawyd bwffe helaeth, rhoddedig gan yr aelodau, cym ymroi i fwynhau'r adloniant. Llywyddwyd y noson gan Mr Ralph Jones, yn ei ffordd ddihafal ei hun. Aelodau'r Gymdeithas oedd yr artistiaid a chafwyd sgets, parti canu, canu gyda'r gitâr, adrodd storïau a pherorasiwn er mawr fwynhad i'r aelodau. Enillwyd y raffl gan Mrs Heulwen Edwards. Mae ein diolch arbennig yn ddyledus i Mrs Ann Parry-Jones am drefnu noson mor ddifyr ac i bawb a gyfrannodd i wneud y dathliad yn un mor hapus a chofiadwy. Terfynwyd y noson trwy ganu 'Dros Gymru'n gwlad'. **UNDEB Y MAMAU.** Yng nghartref y Curad, pnawn Mawrth, 9 Mawrth, cynhaliwyd y cyfarfod misol o Undeb y Mamau Eglwys St Padarn. Cymerwyd y gwasanaeth agoriadol gan y Rheithor, y Parchg Philip Hughes ac ef hefyd a drefnodd y Cwis Beiblaidd a ddilynodd ein trafodaeth ar nifer o faterion. Yn gyfrifol am y baned roedd Mrs Kathleen Williams a Mrs Nellie Morris ac fe enillwyd y raffl gan Mrs Audrey Evans. Diolchwyd i'r Rheithor a threfnwyr y lluniaeth gan Mrs Clara Roberts. Diweddwyd trwy adrodd y Gras.

COLLED. Trist oedd clywed am farwolaeth Mr Egryn Evans ar 3 Mawrth mewn ysbyty yn Lower Hutt, Wellington, Seland Newydd, wedi gwaeledd byr. Mae ein cydymdeimlad yn fawr â Rhiannon ei wraig, Eirian ei ferch, a'r teulu oll. Roedd y teulu'n byw yn Arfryn, Llanberis cyn iddynt ymfudo i Seland Newydd yn 1964.

PLAS PENGWAITH. Dathlwyd Gŵyl Ddewi gydag ymweliad Côr Lleisiau'r Gweunydd ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr. Diolch i Mrs M. Mathews am drefnu'r noson.

Er mai ond am gyfnod byr y bu Mrs E. M. Jones yma roeddem yn drist iawn o glywed am ei farwolaeth y mis diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Mae Mr J. Munro wedi cael dod

adref o'r ysbyty a gobeithiwn ei fod wedi gwella — croeso yn ôl atom.

Daeth Ms D. Williams a Mrs M. Jones, y ddwy o Lanrug, atom i aros am gyfnod byr a chroesawn hwy'n gynnes.

Bellach mae Mrs Agnes Owen wedi symud i Gartref Penisarwaun ac fe fydd y lle 'ma yn rhyfedd iawn hebddi gan ei bod yn gymeriad mor arbennig. Dymunwn pob hapusrwydd iddi ym Mhenisarwaun.

Mae Mrs F. Ellis yn dal i fod yn Ysbyty Eryri ac mae pawb yn cofio ati ac yn dymuno iddi frysio yn ôl atom.

Gadawodd Ms Delyth Jones i weithio yn Ysbyty Gwynedd a dymunwn pob llwyddiant a hapusrwydd iddi yn ei swydd newydd.

Mae Mrs B. Richardson a Mrs H. Jones wedi ymddeol o'u gwaith. Rhoddodd y ddwy ohonynt flynyddoedd maith o wasanaeth i'r Cartref. Dymunwn pob hapusrwydd ac iechyd i'r dyfodol oddi wrth pawb yn y Cartref.

Trist iawn yw cofnodi colli cymeriad unigryw yn y Cartref a'r fro ym marwolaeth Anti Mari, sef Mrs M. Pritchard. Bu hefo ni yma am dros chwe blynedd ac roedd bob amser wrth ei bodd yn cyfarfod pawb a ddô i'w gweld. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teulu oll yn eu profedigaeth.

ER COF annwyl am Eluned Mai Jones, a hunodd 14 Ebrill 14 1998, yn 54 mlwydd oed — 'Gwynt y nefoedd chwytha'n dawel, ar lecyn sanctaidd iawn i ni'. Aled, Rhiannon, Glenys, Trefor, Ffranccon a Gareth. **DIOLCH.** Dymuna Iwan Jones, 12 Llainwen Isaf ddiolch i bawb am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 21 oed.

DIOLCH. Dymuna Derfel ac Anita, gynt o 9 Stryd yr Wyddfa, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn. Mae Glenys a Gwilym, sef taid a nain, hefyd yn diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH. Dymuna Mrs Nancy Jones, 79 Maes Padarn ddiolch yn ddiffuant i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau lu am y cardiau niferus, y blodau hardd a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

Eisteddfod Llanberis

TESTUNAU RHYDDIAITH

(yng gyfyngedig i ieuenctid bro'r Eco)

OEDRAN 12 - 15: Testun: 'Pen' neu 'Brwydr'

OEDRAN 15 - 18:

Darn o ryddiaith ar ffurf stori fer / sgwrs / adolygiad
(y gwaith i fod yn llaw'r ysgrifennydd erbyn 16 Ebrill)

OEDRAN 12 - 15: Dylunio clawr llyfr

(y gwaith i fod yn llaw'r ysgrifennydd erbyn 1 Mai)

Ysgrifennydd: Heather Jones, 7 Coed y Glyn, Llanberis (872569)

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

Beth am **Fwffe Enwog Nerys**

i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas
Partion rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.

**Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro —
nos Wener olaf bob mis**

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

YR URDD. Bydd plant yr Urdd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir gyda'r gân actol. Dymuniadau gorau iddynt, maent wedi gweithio'n arbennig o galed yn ystod yr wythnosau diwethaf. Diolch i Anti Sylvia ac Anti Jina am eu hyfforddi. Bu gwaith celf Helen, Sarah ac Owain yn fuddugol yn y gystadleuaeth cylch ac mae gwaith crochenwaith Helen Jones a Sara Williams wedi llwyddo i fynd i'r Eisteddfod Genedlaethol. Hei lwc, efallai mai llestri o'r Waun fydd i'w cael yn y dyfodol!

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Mrs Idris Jones, Goleufryn ar ddathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn 90 oed. Hefyd bu Mrs Peters (Cae Steel gynt) yn dathlu cyrraedd ei 90 oed. Dymuniadau gorau i'r ddwy ohonynt i'r dyfodol.

GENEDIGAETHAU. Llongyfarchiadau i Delyth a Phil Lowe, Ger y Ffynnon ar enedigaeth mab bychan, Gwion Prys, brawd bach i Carwyn a Megan.

Ganwyd mab bychan, Dafydd Llwyd, i Nia a Gary, Dolydd, 3 Stad Tŷ Hen a ŵyr cyntaf i Beryl a Dewi, Dôl-y-coed. Llongyfarchiadau i chi a chroeso i'r rhai bach.

CROESO ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Mrs Eirian Jones, Bro Dawel a Mrs Helen Jones, Stad Tref Eilian adref o'r ysbty.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Miss Katie Roberts, Stad Tref Eilian a Manon Eluned, Stad Tref Eilian — mae'r ddwy yn yr ysbty ar hyn o bryd.

DIOLCH. Dymuna Mrs M. Owen, Stad Tref Eilian ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag ati tra bu yn ysbtyai Gwynedd ac Eryri, ac wedi iddi ddod adref.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Dr Huw Roberts yn ei brofedigaeth o golli ei dad.

Cydymdeimlwn hefyd â'r Parchg John Glyn, Garmon, Stad Tŷ Hen yn ei brofedigaeth o golli ei fam mor frawychus o sydyn.

DIOLCH. Dymuna Jane a theulu y diweddar John Elwyn Roberts, 24 Bro Waun ddatgan eu diolchgarwch i'w perthnasau, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu

profedigaeth. Diolch am yr holl lythyrau, cardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion hael er cof am John Elwyn at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, a Meddygfa Waunfawr. Diolch i Dr Huw Parry a phawb yn Ward Alaw ac i feddygon a staff Meddygfa Waunfawr am eu gofal. Diolch yn arbennig am wasanaeth Miss O. M. Davies ac am iddi fod yn gefn ac yn gysur i ni; ac i'r ymgymerwyr Gwilym Jones a'i Fab, Caernarfon am eu trefniadau trylwyr.

NEWID AELWYD. Mae rhai teuluoedd ar fin neu wedi newid aelwyd o fewn y pentref. Dymunwn yn dda iddynt yn eu cartrefi newydd. Croesawn yn ôl Nesta Eluned (Pen Graig gynt) i'r Waun wedi blynyddoedd o fyw ar Ynys Môn. Mae hi wedi cartrefu yn Tremnant. Y GYMDEITHAS LENYDDOL. I ddiweddu'r tymor eleni cafwyd noson ddiddorol iawn yng nghwmni Mr Eryl S. Roberts, Gaerwen. Rhoddodd Mr Roberts hanes ei waith yn Sain Ffagan. Llywydd y noson oedd Mrs Margaret Owen. Diolchwyd i Mr Roberts gan Mrs Myra Turner. Cafwyd lluniaeth ysgafn ar ddiwedd y cyfarfod. Gobeithir trefnu trip ym mis Mai neu Mehefin.

Y CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor ar 26 Chwefror yn y Ganolfan a dyma grynodeb o'r hyn a drafodwyd:

Cafwyd anerchiad gan Dafydd Wigley AS ar effaith y Cynulliad Cymreig newydd ar lywodraeth leol yng Nghymru.

Rhoddwyd £10 i'r Llang Brydeinig am flodeudorch a roddwyd ar y Gofeb ym mis Tachwedd y llynedd.

Cafwyd ymateb oddi wrth faer Kuring-gai, Awstralia yn ein hysbysu nad oedd tref Wahoonga â diddordeb mewn cynllun gefeillio â'r Waunfawr er bod cysylltiad hanes datblygu radio rhwng y ddau le.

Penderfynwyd derbyn sylwadau Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd nad oes angen gwella cyflwr gwlyb llwybr rhif 14 gan mai llwybr cefn gwlad ydyw a disgwylir cerddwyr i wisgo'n addas. Hefyd derbyniwyd barn y Swyddog bod camfa ar lwybr rhif 15 yn ddiogel.

Nid yw'r Cyngor ar hyn o bryd am ddilyn y mater o dan-ddaearu gwifrau trydan.

Penderfynwyd gofyn i Adran Prifffyrdd Cyngor Gwynedd beintio arwydd 'Dim Parcio' ar lawr ym man pasio ger Weirglodd Goch.

Bydd y Cyngor yn gwahodd Arogolygydd Ardal yr Heddlu i'w gyfarfod nesaf.

Penderfynwyd asesu gwaith torri glaswellt ar lwybrau cyhoeddus Waunfawr ac yna anfon y rhestr manylion i'r ymgymerwyr a wnaeth y gwaith y llynedd; a'r ymgymerwyr a ymatebodd i'r hysbysebion a ymddangosodd yn ddiweddar ynglŷn â thorri glaswellt ar lwybrau, mynwent y plwyf, ac ar gael chwarae Gerddi Bach. Bydd prisiau'r ymgymerwyr yn cael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

Bydd cyfarfod arbennig o'r Cyngor i'w gynnal 25 Mawrth i drafod materion ariannol. Dylai pob cais gan fudiadau am gyfraniad ariannol ddod i law y clerc erbyn 22 Mawrth 1999.

Bydd y Cyngor yn datgan ei gefnogaeth i Gynllun Drafft yr Iaith Gymraeg y Comisiwn Archwilio.

Penderfynwyd cefnogi cynlluniau Adran Prifffyrdd Cyngor Gwynedd am fesurau tawelu trafndiaeth yn Dôl Erddi ac Ael-y-bryn.

Bydd manylion y Ganolfan, Clwb Chwaraeon a'r Maes Parcio yn cael eu danfon i'r Ymddiriedolaeth Elusennol Hawliau Lles Anabledd.

Cefnogwyd safiad Cyngor Cymdeithas Nefyn ynglŷn â chreu is-ddeddfau i wahardd yfed diodydd meddwol mewn mannau cyhoeddus.

Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i adnewyddu trwydded adloniant cyhoeddus y Ganolfan, nac i Drwydded Theatr (Achlysurol) ar 25-27 Chwefror 1999.

Cynhelir y cyfarfod llawn nesaf o'r Cyngor ar 7 Ebrill 1999 am 7.00 p.m. yn y Ganolfan.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.

Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

ER COF am Eluned Jones, 3 Bryn y Gof gynt:

*Gwynt y nefoedd sy'n chwythu'n dawel
Ar lecyn sanctaidd iawn i ni.*

Oddi wrth ei brawd Aled, chwaer Rhiannon; hefyd Glenys, Trefor, Ffrancon a Gareth.

PWYLLGOR Y CAE CHWARAE. Enillwyr y dynfa fisol am fis Mawrth oedd: £40 Collette Donaldson (52); £25 Dic Jones, Cruglys (39); £15 Oliver Thomas, Llwyn Celyn (28); £5 Albert a Lily Jones (62).

RHEDWRAIG O FRI. Enillwyd Ras Moel-y-ci, Rachub gan Jayne Lloyd

yn ddiweddar — ras gyntaf y flwyddyn. Go dda, yntè.

TORRI GLASWELLT. Gyda dyfodiad y gwanwyn gwelwyd torriad cyntaf y glaswellt ar ochr y ffyrdd. Oni ddylai Cyngor Gwynedd gynnal, i safon uwch, ganol y pentref ac ardaloedd preswyl fel Bryn y Gof gan osod blodau tymhorol yno — fel y ffyrdd ar gyrion Caernfon?

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI

CELTIC WINDOWS



Sefydlwyd
1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



'Selsig Wavell 'di'r gora' meddai Lisa Goddard

Mae adrodd am lwyddiannau Wavell Roberts o Lanrug ym myd cystadlaethau cigyddion wedi dod yn eitem fisol yn y papur bro! Fis Tachwedd diwethaf adroddwyd amdano'n cael ei enwebu yn un o bedair siop cigydd gorau Cymru ac, yn ddiweddarach yn yr un mis, yn ennill un o brif wobrau'r gogledd-orllewin mewn cystadleuaeth gwneud selsig yn Haydock. Y mis diwethaf roedd yn Llundain a daeth y newyddion am ei lwyddiant yno fel roedd yr *Eco* ar fin ei gyhoeddi.

Yn Llundain, ddiwedd Chwefror, bu bron i Wavell ddod i frig un o brif gystadlaethau selsig Prydain. Yn wir, roedd ennill drwedd i'r rownd derfynbol yn dipyn o gamp ynddi ei hun. Roedd deg ar hugain o bencampwyr cenedlaethol a rhanbarthol Prydain yn cystadlu ac felly, fel y gellid disgwyl, roedd safon y cynnyrch yn uchel iawn. Roedd y tri beirniad yn marcio ar ansawdd, ymddangosiad a blas y gwahanol selsig. Un o'r beirniaid gwadd oedd Lisa Goddard a chyfaddefodd ar ddiwedd y gystadleuaeth mai selsi Wavell oedd wedi mynd â'i bryd hi, ac mai ef oedd ar y brig. Yn anffodus, doedd marciau'r ddau feirniad arall ddim yn cytuno a bu'n rhaid bodloni ar y drydedd wob. Ond canmolwyd pawb am safon arbennig eu cynnyrch a chyhoeddwyd mai trwch croen selsig yn unig oedd yn gwahanu'r goreuon!

Ganol fis Mawrth cynhaliwyd Arddangosfa Genedlaethol

Bwyd a Chig yng Nghanolfan G-Mex ym Manceinion. Dyma un o gynhadleddau pwysicaf y diwydiant cig ym Mhrydain, ac yn ffenestr siop i fasnachwyr a chyfanwerthwyr bwydydd. Yn ystod ail ddiwrnod yr arddangosfa cynhaliwyd cystadlaethau cynnyrch cig dan nawdd y Comisiwn Cig a Da Byw. Roedd dros pedwar cant o gigyddion yn cystadlu mewn pedwar dosbarth. Unwaith eto, yn y dosbarth mwyaf poblogaidd — *Pork Fine Sausages* — daeth Wavell yn ail i gigydd o Ogledd Iwerddon gan ennill y ddau oedd ar y blaen iddo yn Llundain fis ynghynt!

Does ryfedd bellach bod archebion am selsig yn cyrraedd Llanrug o bedwar ban byd. Tybed a fydd eleni yn flwyddyn y gwelir Wavell yn cael ei wobrwyo â theitl prif wneuthurwr selsig Prydain?

(Oes unrhyw fusnes lleol arall wedi profi llwyddiant cenedlaethol? Rhowch wybod i'r golygyddion.)



Lisa Goddard yn cyflwyno Wavell â thystysgrif am ei selsig ar ran y Meat Traders Journal.

Llwyddiannau rhedwyr lleol

Gyda'r tymor rhedeg traws-gwlad bellach wedi dirwyn i ben, mae'r tymor rhedeg mynydd wedi dechrau ac mae llwyddiannau rhedwyr bro'r *Eco* yn parhau. Yn ystod y gaeaf enillodd Colin Donnelly o Ddinorwig Bencampwriaeth Rhedeg Traws-gwlad Gogledd Cymru am y chweched tro gan dorri record o bump pencampwriaeth oedd wedi sefyll ers dros ugain mlynedd gan Tony Blackwell, rhedwr a gynrychiolai dîm Wolverhampton a Bilston bryd hynny. Yn addas iawn, roedd Tony yn bresennol yn ystod y ras i wyllo Colin yn ennill a thorri'r record. Yn yr un gystadleuaeth enillodd Alun Vaughan o Lanberis yr adran dan 20 oed; daeth Arwel Lewis o Fethel yn ail yn yr adran i ddynion dros 40 oed; a daeth Jayne Lloyd o Gaeathro yn drydydd yng nghystadleuaeth y merched.

Diwrnod yn ddiweddarach roedd Alun ac Arwel yn cystadlu mewn räs ffordd ym Mhorthaethwy gydag Alun yn ennill ac Arwel yn drydydd (a chyntaf dros 40 oed).

Cychwynnodd y tymor rhedeg mynydd gyda räs newydd ar Fynydd Caergybi a Trefor Jones o Lanberis yn dod yn ail. Yn draddodiadol, Ras Moel-y-ci o'r Rhiwlas yw'r räs gyntaf y tymor rhedeg mynydd a daeth hanner cant o redwyr yno i herio'r oerni yn gynharach y mis hwn. Yn eu plith roedd dau redwr tramor — un o'r Ukraine a'r llall o Latfia — a oedd wedi eu noddi gan eu llywodraeth i rasio ym Mhrydain yn ystod misoedd y gwanwyn. Daeth Andziy Reygez o'r Ukraine yn ail yn y ras, ond profodd llethrau grugog a serth Moel-y-ci yn ormod i Gunars Stals. Daeth Gwynfor Owen o Lanrug yn bedwerydd (a chyntaf dros 40 oed) a Jayne Lloyd o Gaeathro ac Alison Donnelly o Ddinorwig yn gyntaf a thrydedd yn adran y merched.

Y Sadwrn canlynol daeth trigain o redwyr i Lanllechid i herio Moel Wnion, y Gyrn a Moel Faban mewn gwynt deifiol. Colin Donnelly o Ddinorwig enillodd, yn cael ei ddilyn gan Alun Vaughan o Lanberis a Gwynfor Owen o Lanrug (cyntaf dros 40 oed). Y tro hwn bu'n rhaid i Jayne Lloyd o Gaeathro fodloni ar ddod yn ail yn adran y merched.

Mis Ebrill bydd Cynghrair nos Fawrth yn ail-ddechrau gyda'r räs gyntaf yn y gyfres yn cael ei chynnal ar y Foel Lus ym Mhenmaen-mawr. Dyma gyfres hynod boblogaidd a llawer rhedwr yn rhoi cynnig ar rasio mynydd am y tro cyntaf yn un o'r räsus byr hyn. Fel y llynedd, noddir y brif gynghrair gan Siop 14th Peak a noddir adran yr ieuenctid gan gwmni Bruce Edwards-Jones. Mae saith räs yn y gyfres a'r pedwar canlyniad gorau yn cael eu cyfrif i benderfynu safle pob rhedwr yn y Gynghrair. Oherwydd hyn, gall cynlyn-iadau'r räs olaf weddnewid yr holl safleoedd yn y Gynghrair a chynnal diddordeb y cystadleuwyr i'r diwedd!

DRAENOG



Fel arfer cael y sac wedi i'w timau golli fydd rheolwyr pêldroed. Ond mae un rheolwr lleol mewn perygl o gael y sac wedi i'w dîm ennill! Enillodd tîm dan 13 oed Llanberis eu gêm gynta'r tymor hwn y Sadwrn dwytha... a doedd eu rheolwr ddim yno!! Newyddion da i'r hogia... a newyddion drwg i'r rheolwr oedd wedi addo £1 yr un i'r hogia os byddent yn ennill gêm y tymor hwn. Er cywilydd iddo, roedd Gwil yn credu bod ei arian yn saff!

AM BRYDAU
TSINEAIDD BLASUS
I'W BWYTA GARTREF



LAKESIDE
CHINESE TAKEAWAY

47 STRYD FAWR
LLANBERIS

Ffôn: 871840

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

**CEIR
ADAM**



HURIO PREIFAT
YN UNIG

LLEOL NEU HIRBELL

**LLANBERIS
871539**

Dowch i'r Antur

'Pam mae Antur Waunfawr yn trefnu gŵyl i gofio John Evans?' holodd y gŵr ryw ychydig fisoedd yn ôl. Cwestiwn da, medda fi. Ar y pryd doeddwn i ddim yn sicr o'r ateb.

Fe'm goleuwyd yn noson agoriadol 'Y Madogwys' yng nghanolfan Waunfawr. Drama sgrifennwyd gan Gareth Miles yw'r 'Madogwys' am antur fawr John Evans i'r America. Mi fwynheais y ddrama ond mwynheais lawn cystal, ac rwy'n parhau i fwynhau darllen, y rhaglen wych a brynais ar noson y ddrama. Ynddi ceir yr esboniad...

'Yn Antur Waunfawr mae John Evans yn symbol o'r hyn sy'n bosib. Aeth i'r America ddwy ganrif yn ôl ar un perwyl ac un nod, sef darganfod yr Indiaid Cymreig, ond canlyniad ei anturiaeth oedd creu hanes ac arloesi ymhell y tu hwnt i'w ddibenad a'i ddisgwyliadau personol. Hoffwn gredu mai dyma amcan yr Antur — arloesi mewn un congylfach yng Nghymru, ac agor drysau chwyldroadol i gymunedau eraill.'

Cofiwch hefyd gymryd hanner awr i fynd draw i'r Antur i weld yr arddangosfa o luniau cymeriadau Waunfawr gan y ffotograffydd Keith Morris. Tybed faint ohonynt fyddwch chi'n eu hadnabod? Mae'n wir yn werth ei gweld — portread o bobl Waunfawr fydd yn werthfawr i haneswyr y dyfodol.

Y digwyddiad nesaf yng Ngŵyl John Evans fydd Gŵyl Fai (dydd Llun, 3 Mai) — diwrnod i ddathlu ein hamgylchedd a blasu ychydig ar ddiwylliant y Cymry a'r Mandaniaid. Bydd rhywbeth i bawb o'r teulu yn digwydd yn yr Antur ar y diwrnod hwn, digonedd i'w weld a'u gwneud. Rydym yn estyn gwahoddiad cynnes i unrhyw un fyddai'n hoffi dod â stondin neu arddangosfa draw i'r Antur ar gyfer diwrnod yr Ŵyl. Os ydych yn gwerthu nwyddau crefft lleol neu amgylcheddol, neu eich bod gydag arddangosfa sy'n ymwneud â materion

ANTUR

WAUNFAWR

amgylcheddol, ffoniwch Jane yn swyddfa'r Gwasanaeth Ailgylchu am fwy o fanylion (01248) 355112.

Bydd noson werin arall hefyd gan y Cajuns Denbo yn y Snowdonia Parc, Waunfawr am 8 o'r gloch nos Sul, Mai 2.

Yna, ar 1af Awst, bydd y gofeb i John Evans gan yr artist Mike Watts yn cael ei dadorchuddio a bydd agoriad swyddogol yr amgueddfa yn y Tŷ Capel.

Wrth ysgrifennu'r erthygl hon, rydwi'n sylweddoli ei bod yn ddiwrnod cyntaf y gwanwyn. Welais i unlle sy'n dathlu dyfodiad y tymor yma cystal â'r Antur. Mae ffenestr y siop yn llachar o felyn ac yn llawn pethau cysylltiedig â'r adeg hon o'r flwyddyn. Os am syniadau gwreiddiol ar addurno wyau, dyma'r lle i ddod. Cofiwch hefyd am y cardiau cyfarch o bob math, mae nhw wedi eu gwneud â llaw a phob un yn unigryw. Mae digon o blanhigion tymhorol ar werth yn y feithrinfa, ac mae'r Parc Natur yn dechrau bywiogi a llenwi â thyfiant newydd.

A dweud y gwir, mae pob ymweliad â safle Antur Waunfawr yn dangos arwyddion fod y lle a'r gwasanaethau a gynigir yn datblygu drwy'r amser. Dyna pam y penderfynwyd bod angen erthygl fisol i'r Eco er galluogi pobl i wybod am y datblygiadau cynyddol y mae'r Antur yn ei gynnig i'r gymuned.

Dewch i'w gweld drosoch eich hun.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

DAMWAIN. Drwg gennym ddeall fod Mrs Nellie Valmai Pritchard, Pen Dyffryn wedi syrthio yn y tŷ a thorri ei braich. Dymunwn wellhad buan iddi ac anfonwn ein cofion ati.

GWAELEDD. Bu Mrs Elizabeth Bower, Tan y Marian yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn triniaeth ond wedi dod gartref bellach. Brysiwch wella, Betty.

Bu Mr Gwilym Davies, 10 Bro Elidir yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn triniaeth ond mae yntau gartref bellach a dymunwn wellhad llwyr a buan iddo.

Llawdriniaeth i'w llygaid gafodd Mrs Nellie Williams, 2 Bro Elidir gynt ac roedd yn dda ei gweld wedi gwella ac yn y capel y Sul diwethaf.

Cafodd Mr John Peris Roberts, 11 Maes Eilian, lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac yn dal yn yr ysbyty ar hyn o bryd — brysia wella, John. CYFARFOD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD. Ddydd Gwener, Mawrth 5ed, yn y Ganolfan cynhaliwyd y Cyfarfod Gweddi a chafwyd cyfarfod bendithiol iawn. Gaed casgliad o £17 at yr achos. Diolch i'r rhai a gymerodd ran yn y gwasanaeth.

EISTEDDFOD Y PENTREF. Fel y soniais yn yr Eco diwethaf bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal ar 27

Ebrill. Erbyn y daw'r Eco hwn o'r wasg rwy'n gobeithio y bydd pawb wedi cael copi o'r testunau. Os nad ydych wedi cael copi dewch i gysylltiad â mi.

PROFEDIGAETH. Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir a'r plant yn eu profedigaeth o golli chwaer yng nghyfraith a modryb, sef y ddiweddar Mrs Jenny Roberts o Lanrug. Roedd Mrs Roberts yn un o blant yr ardal ac wedi cadw cysylltiad agos â'r pentref ar hyd ei hoes.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Daeth tymor y Gymdeithas i ben ar y 4ydd o Fawrth gyda cinio Gŵyl Ddewi yng nhŷ bwyta'r Marquis yn Llanfairpwll. Mwynhawyd gwledd a phawb wedi mwynhau a chael mwy na digon i'w fwyta. Wedi'r wledd bu rhai ar ymweliad a chanolfan Pringles i wario ychydig cyn gorffen y diwrnod.

CYFARFOD CYHOEDDUS. Wedi'r cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn y Ganolfan ar nos Fawrth, 16eg Chwefror, y cwbl sydd gennyf i'w ychwanegu yw fy mod wedi cysylltu ag adran carthffosiaeth cwmni Hyder a'u bod hwythau yn dweud mai Adran yr Amgylchedd sy'n gyfrifol am y rheolau newydd ac am y cynllun carthffosiaeth yn yr ardal.

Clwb Eryri

Cynhaliwyd cyfarfod ola'r tymor, sef y cinio Gŵyl Ddewi, yng ngwesty'r Victoria, Llanberis. Cafwyd cefnogaeth gymharol lewyrchus i'r amgylchiad a threuliwyd noson ddifyr yng nghwmni'r siaradwr gwadd, y Parchedig Harri Parri, Caernarfon. Cyn ei gyflwyno, diolchodd y llywydd, Alwyn Evans, i bawb a roddodd gyfraniad i'r nosweithiau diddan ac amrywiol a gafwyd drwy'r tymor a thalodd deyrned arbennig yn mynegi ei ddyled i'r swyddogion yn benodol.

Byrdwn sgwrs y siaradwr oedd y newid a fu ym mlaenoriaethau cymdeithasol a chrefyddol tref Caernarfon a'r cylch dros ganrif ola'r mileniwm. Diflannodd ddydd y pregethwr mawr, y capeli palasaidd a dylanwad

Ysgol Sul ac addoliad, a'r penllanw a fu a drodd yn drai. 'Hon yw dyw'r afon, ond nid hwn yw'r dŵr,' medd y bardd ac yn y cyswllt hwn, erys ein Cymreictod a'n cymdeithas ninnau ond y tu fewn i'w parhad, cymaint fu'r newid.

Diolchwyd i'r siaradwr gan yr is-lywydd, John Emlyn Hughes, a fanteisiodd ar ei gyfle hefyd i ddiolch fel y llywydd o'i flaen am y llwyddiant a fu a'r rhesymau am hynny. Cyn cloi'r noson, cyhoeddodd bod cyfarfod o'r swyddogion nos Lun, Mai 10, yn nhŷ'r llywydd, a'r wibdaith flynyddol ar Fehefin 19, ac apeliodd yn daer am well cefnogaeth nag a fu i'r amgylchiad pwysig hwn yng nghalendr y Clwb.

IOLO HUWS-ROBERTS

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

**London House
LLANRUG**

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
**MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

Royal Victoria Hotel



LLANBERIS



Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

x

Ffôn: (01286) 870253

**EMYR
JONES**

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thrédio peipiau

**44 Glanffynnon
LLANRUG**

**Caernarfon
673513**

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

DIOLCHIADAU

Dymuna Mr William Richard Jones, 11 Hafan Elan ddiolch i bawb o'i deulu agosaf ac i'w ffrindiau a chymdogion oll o ardaloedd Llanberis, Cwm-y-glo a Llanrug am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ato tra bu yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Gaynor Williams, Penterfyn ddiolch yn ddiffuant i'w theulu a ffrindiau am y caredigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei harhosiad yn yr ysbyty ac ar ôl dod gartref. Diolch am yr holl gardiau, galwadau ffôn a'r blodau.

Dymuna Gwilym a theulu y ddiweddar Nancy Jones, 9 Rhos Rug, ddiolch am bob gair o gydymdeimlad yn eu colled. Diolch am y llu cardiau a'r rhoddion o £420 i'w rhannu rhwng Ymchwil Cancr ac Arthritis.

Dymuna Mrs Meira Pitts, 2 Bro Rhyddallt ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Llandudno.

CYDYMDEIMLAD. Bu farw Mrs Jane Roberts (Anti Jennie), Elidir View, Pontrhyddallt ar 28ain Chwefror yn Ysbyty Bryn Seiont, yn 87 oed. Bu'n byw yn Llanrug ers bron i drigain mlynedd. Roedd yn hanu o Pen Draw, Dinorwig. Roedd yn aelod brwd a selog yn Eglwys Penisarwaun gan gefnogi pethau da ei hardal. Roedd yn hynod garedig a châl bleser mawr yn rhoi. Bydd colled ar ôl y wraig gymdogol hon a chydymdeimlwn â'i theulu oll.

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i deuluoedd y canlynol:

Mrs Nan Jones, 2 Ffordd Glanffynnon a fu farw yn ddiweddar ar ôl brwydro'n hir gydag afiechyd y galon ond heb gwyno am ei chyflwr blin.

Mrs Nansi Jones, 9 Rhos Rug, hithau hefyd wedi brwydro'n ddewr gyda'r crydcymalau am flynyddoedd.

Mr Erasmus Williams, Bryn Llan, ffermwr adnabyddus yn y pentref a bydd colled fawr mewn sawl cylch ar ei ôl.

Mrs Mari Pritchard, Plas Pengwaith a Hafan Elan gynt, a fu

farw yn 95 oed ddydd Mawrth, 16 Mawrth.

Bu farw Emma merch Hefin a Daphne (Caerdydd), wyres i Mr a Mrs Harri Roberts, Rhos Plas Tirion, yn 30 oed. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyr i'r teulu i gyd, ac yn arbennig i'r ddwy ferch fach. GWELLHAD. Anfonwn ein dymuniadau gorau i Mr Arthur Jones, Hafan Elan. Deallwn ei fod yn derbyn triniaeth yn yr Ysbyty. Brysiwch wella.

EGLWYSI SANT MIHANGEL, LLANRUG AC EGLWYS SANT GABRIEL, CWM-Y-GLO. Dyma drefn gwasanaethau Wythnos Fawr y Pasg eleni —

Llun, Mawrth 29: Cwm-y-glo, Cymun Bendigaid am 10.

Mawrth, Mawrth 30: Llanrug, Cymun Bendigaid am 10. Cwm-y-glo, Gosber am 6 p.m.

Dydd Iau Cablyd (Ebrill 1): Y Gadeirlan, adnewyddu addunedau bedydd am 11 a.m. Llanrug, Cymun Bendigaid Undebol am 7 p.m.

Dydd Gwener y Groglith (Ebrill 2): Cwm-y-glo, Cyn Gymun a Litani am 9.15 a.m. Llanrug, Cyn Gymun a Litani am 10 a.m.

Sul y Pasg (Ebrill 4): Cwm-y-glo, Cymun Bendigaid dwyieithog. Llanrug, Cymun Bendigaid dwyieithog am 4.45 p.m.

DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD. Ar Mawrth 5ed cafwyd cyfarfod bendithiol yng Nghapel Hermon gyda chwiorydd yr eglwys yn cymeryd rhan i gofio am sefyllfa y merched yn Venezuela. Mrs Enid Whiteside Thomas oedd yr arweinydd gyda Mrs Beryl Thomas yn cyflwyno'r anerchiad.

DYMUNIADAU GORAU i Mrs Sydney Humphreys, 16 Bro Rhyddallt gynt, sydd wedi cartrefu gyda'i mab, Derek, yn 6 Lôn Ddŵr, Tal-y-bont, ger Bangor. Cofion gorau atoch.

YR YSGOL GYNRADD

Yr Urdd. Diolch o galon i'r holl bentrefwyr a gefnogodd ymgyrch Dydd Baner i'r Urdd. Mae'r ysgol yn falch iawn o lwyddiannau'r canlynol yn yr Eisteddfod Cylch: parti cerdd dant dan 12 oed; parti dawn werin dan 12; Ifan Dafydd, unawd pres dan 12; Emma Catherine Williams, cân werin dan 12; Ffion Angharad Williams, unawd dan 10; Debbie

Hughes ac Emma Catherine, deuawd dan 12. Llongyfarchiadau iddynt a'u hyfforddwyr a phob dymuniad da yn yr Eisteddfod Sir a gynhelir ddydd Sadwrn olaf Mawrth. Llongyfarchiadau arbennig i Sophie Gordon, Bl. 6 gan y bydd ei gwaith celf yn cael ei arddangos yn y Genedlaethol.

Ymweliadau Addysgol. I gadarnhau eu gwaith thema ar 'Yr Ysgol' bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 ar ddau ymweliad — y naill i'r Gilfach Ddu, Llanberis a'r llall i Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy. Bu plant blynyddoedd un a dau, sy'n dilyn yr un thema, hefyd ar ymweliad â Llanystumdwy.

Gemau Pêl-droed. Croesawyd dau dîm o Ysgol Dolbadarn, Llanberis atom yn ddiweddar a chafwyd dwy gêm dda. Cyfartal, un yr un, oedd hi ym mlwyddyn 6, a 3-1 i Lanrug yng ngêm Blwyddyn 4.

Bingo. Cafwyd noson hwyllog a llwyddiannus iawn yn neuadd yr Ysgol, nos Fercher, Mawrth 17. Codwyd £300 i gronfa'r Ysgol. Diolch i bob un a gyfrannodd tuag at lwyddiant y noson.

MERCHED Y WAWR. Nos Fawrth, y 9fed aeth 31 o aelodau i Ganolfan Antur Waunfawr. Roedd hwn yn amlwg yn atyniad da a chafwyd croeso arbennig gan y staff. Roedd y cawl cennin, y bara brith a'r teisennau cri yn fendigedig. Bu Gwynn Davies yn olrhain hanes sefydlu'r Ganolfan a diolch i'w weledigaeth ef, 38 mlynedd yn ôl, mae 45 yn gweithio yno ac ym Mangor erbyn hyn. Gyda'i ddyfalbarhad ef a'i gyfeillion daeth cyfle i bobl ag anbledd gael gwasanaethu'r gymuned a'u derbyn i'r gymdeithas. Tystiai bod pentref Waunfawr yn sicr yn lle gwell a hapusach ar sail hyn. Cafwyd cyfle i ymweld â'r siop a phrynu nwyddau wedi'u gwneud gan y bobl arbennig yma. Diolchwyd i Mr Davies a'r staff am eu croeso cynnes.

Llongyfarchwyd Nant Roberts ar ennill cadair Eisteddfod Cilgwyn ac estynnwyd croeso cynnes i Gwenda Roberts, Hafle wedi'i gwaeledd.

Y mae'r Parti Cân Werin wrthi'n brysur yn ymarfer ar gyfer Eisteddfod Rhanbarth a gynhelir Sadwrn, Ebrill 17, yn Neuadd Ogwen, Bethesda. Diolchir i Megan Roberts am ei pharodrwydd i ddysgu'r Parti a phob dymuniad da iddynt.

Cynhelir Talwr y Beirdd neu Ymryson Ysgafn yng Nghapel y Graig, Penrhosgarnedd, Ebrill 13eg. Gobeithio y ceir cynrychiolaeth dda i'r noson hon hefyd.

HELP!

Mae angen cysylltydd i drefnu plygu yr Eco yn Llanrug. Oes yna rhywun yn barod i roi UN NOSON Y FLWYDDYN i hybu gwaith yr Eco?

Cysylltwch â'r golygyddion neu ag Arwel Jones os oes gennych ddi-ddordeb.

Dymuna Mrs S.E. Thomas, Min-y-rhos, Ffordd yr Orsaf ddiolch yn fawr iawn i'w thelu a'i chyfeillion am y llu cardiau, anrhegion a'r blodau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Jennie Roberts, Cerrig yr Afon (Park Villa gynt), Geraint a lolo ddatgan eu diolchgarwch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli brawd ac ewythr, sef O. M. Roberts, Dyffryn Conwy. Bydd yr arian a gasglwyd er cof amdano yn cael ei rannu rhwng Ysbyty Eryri a phlant ag anghenion arbennig.

Gwraig y tŷ yn yr ardd

Wedi'r gaeaf gwyntog a gwlyb mae awydd arnaf i ddawnsio wrth weld blodau'r gwanwyn. Byddai athro daearyddiaeth yn yr ysgol yr euthum iddi yn dawnsio i mewn i'r ystafell gan ddweud, 'Mae Anti wedi dod,' ac yna fe ofynnai'r dosbarth, 'Anti pwy?' Ei ateb fyddai, 'Anticyclone'. Dyna beth oedd athro da — rwy'n cofio hyd heddiw ar ddiwrnod braf.

Mae'r bylbiau a'r saffrwn wedi bod yn llonni un o'u gweld ac mae'r cennin Pedr bach a blanydd mewn potiau y tu allan i'r drws cefn yn siriol iawn. Ond yn tyfu'n naturiol mewn glaswellt yr hoffaf weld y cennin Pedr ac mae gennyf ddau glwstwr gyferbyn a'm hystafell fyw. Mae'r glaswellt yn dangos eu lliw, sy'n well na'u gweld yn rhes unfurf yn yr ardd — ond rhaid gofalu na thorri'r dail wrth dorri'r lawnt. Gadael iddynt wywo'n naturiol sydd rhaid neu ni fydd blodau y flwyddyn nesaf. Mae mis Ebrill yn fis 'gobaith' a bydd natur yn atgyfodi a chawn blannu blodau'r haf wedyn. Hwyl ar y garddio.

PEIDIWCH A GORI

AR STORI —

ANFONWCH HI I'R ECO

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)



Uned 1A BRYNAFON LLANRUG

Ffôn: (01286) 674100 (dydd)
(01286) 650732 (fin nos)

FFENESTRI : DRYSAU

DODREFN : GRISIAU


GWAITH TURNIO

BLYCHAU CLOCIAU

BLYCHAU DAL OFFERYNNAU

BLYCHAU ARDDANGOS

CROESAIR EBRILL



ENW.....
CYFEIRIAD.....

Adloniant gweledol yw thema'r mis hwn.

AR DRAWS

1. (5,1,3)
6. (7)
10. Gwraig John Bull
11. Y lleuad ar ôl nosweithiau tywyll (9)
12. Lle i fyw ynddo (9)
13. Person oer? (3,4)
15. Un sy'n ymwrthod â phleserau'r cnawd (7)
18. Aeth dau del yn wyllt a chreu ysgrifau dadleuol (9)
21. (3,2,3)
23. Gohiriadau (8)
26. Gwyddoniaeth pethau bach iawn (9)
27. Mynwes (7)
29. O flaen ci am loches (7)
32. (4,5)
35. (4,5)
37. Chwydd llidus yn cynnwys crawn (7)
39. Tyrfaedd yn canu pop? (7)
40. Castiau Ron wedi meddwi a cholli'r olwyn yn creu, wel, castiau (9)

I LAWR

1. Problem yr Apostolion? (3)
2. Hen farwn yn dinistrio Eryri, gan gyfnwio yr ail o Ebrill am y cyntaf o Ionawr (5)
3. Lle i olchi dillad (7)
4. Y mwyaf annymunol (5)
5. Un sy'n dwgdyd pethau bach (3-5)
6. Haerllug (5)
7. Rhywbeth wedi ei naddu allan o ryw beth wedi ei naddu (3)
8. Pren caled, du (5)
9. Tir bonheddwyr o radd uchel (7)
12. Peth anferth mewn 'electric lamp' (5)
14. Diosg (5)
16. Hapchwarae (5)
17. Bwyd a wneir drwy ferwi blawd ceirch mewn dŵr (5)
19. Dyweddyd (5)
20. Un sy'n creu llenyddiaeth (5)
22. Llinyn o edafedd pinc i liwio'r ffrog (5)
24. Un amcan (2,3)
25. Cost afresymol (8)

26. Cae braf yn y de (7)
28. Gresyn na fyddai gresynu yn gorffen hefo 'y' yn lle 'u', gellid wedyn ei droi yn ddellten (7)
30. Hyddod mewn ceir Wolseley (5)
31. Derbyn niwed (5)
33. Offeiriad â gofal plwyf (5)
34. Merch sy'n byw yn 'The Hollow, Richmond' (5)
36. Rhagenw personol, ail berson lluosog (3)
38. Datsgwar pedwar (3)

ATEBION MIS MAWRTH

Derbyniais domen o atebion i groesair mis Mawrth a'r mwyafrif helaeth ohonynt yn berffaith gywir. Ceisiadau Mair Evans, Caernarfon; Eirwen Roberts, Tregarth; Dorothy Jones, Llanrug; Mary Davies, Waunfawr; Vera Griffiths, Llanberis; Roesemary Williams, Tregarth; Eluned Jones, Pencaenewydd; Jennie Williams, Clynnog; Elwyn Evans, Llanllechid; Howell Griffith, Awstralia; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; G. Gill, Bangor; Mabel Parry, Porthmadog; Olwen Owen, Llanberis; Nansi Davies, Rhuthun; Jean Hughes-Jones, Rhiw; Elfed Evans, Llanllechid; Beryl Jones, Garndolbenmaen; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; N. Hughes, Cwm-y-glo; Megan Wyn Jones, Bangor; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Ceinwen Williams, Bethel; M. P. Jones, Clynnog; Ceridwen Williams, Llanrug; Mair Foulkes, Penisarwaun; Nan Owen, Llanberis; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Margaret Wyn Roberts, Caernarfon; Moreen Lennon, Llanberis a Catherine A. Jones a aeth i'r het a'r olaf a enwyd ddaeth allan, sef Catherine A. Jones, Tŷ Capel, Pencaerau, Rhiw, Pwllheli LL53 8AR. Llongydarchiadau a £5 i chi.

Gyrrwch atebion croesair Ebrill at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon LL55 3HE erbyn Ebrill 19, os gwelwch yn dda.

CALENDR MIS EBRILL

2. **Gwe** **Gwener y Grogllith.** CWM-Y-GLO: Cymuna Litani am 9.15 a.m. yn yr Eglwys. LLANRUG: Cymuna Litani am 10 a.m. yn yr Eglwys. **DEINIOLEN:** Gwasanaeth yn Eglwys Llandinorwig dan ofal y Parchg Trefor Jones am 2 o'r gloch. **PENISARWAUN:** Gwasanaeth yn yr Eglwys dan ofal y Parchg Tegid Roberts am 2 o'r gloch.
4. **Sul** **Sul y Pasg.** **DEINIOLEN:** Cyfarfod Pregethu Cefnywaun am 10 a 5 o'r gloch gyda'r Parchg Iorwerth Jones Owen. **CWM-Y-GLO a LLANRUG:** Cymun Bendigaid am 9.15 a 4.45. **PENISARWAUN:** Cymun Bendigaid yn yr Eglwys am 9 a.m.
5. **Llun** (hyd 27 Mehefin). **YR ARDAL:** Arddangosfa o gerrig cerfiedig yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis.
7. **Mer** **DEINIOLEN:** Cymdeithas Cyfeillion Llandinorwig gyda Mr Dewi Jones, Pen-y-groes.
15. **Iau** **BRYNREFAIL:** Cyfarfod y Chwirydd am 7 yn y Ffestri gyda Mr Rol Williams, Waunfawr.
17. **Sad** **YR ARDAL:** Eisteddfod Merched y Wawr yn Neuadd Ogwen, Bethesda.
18. **Sul** **PENISARWAUN:** Cymanfa'r Annibynwyr yng Nghapel Bosra am 2 a 6 o'r gloch.
19. **Llun** **DEINIOLEN:** Merched y Wawr — arddangosfa coginio gan M. Lewis o Cig Oen Cymru. Y noson yn agored i bawb.
25. **Sul** **BRYNREFAIL:** Rihysal at y Gymanfa am 6.45.
27. **Maw** **DINORWIG:** Eisteddfod y pentref yn y Ganolfan.

RHAGHYSBYSIAD

Mai 2 **BRYNREFAIL:** Cymanfa'r Presbyteriaid am 2 a 6 o'r gloch.
Mai 15 **LLANBERIS:** Eisteddfod Plwyf Llanberis yn Ffestri Capel Coch.

RHODDION

£10: Er cof am Mrs Nancy Jones, 9 Rhos Rug, Llanrug. Mr Leslie Roberts, 4 Hafod, Clwt-y-bont, er cof am ei ddiweddar wraig



Mrs Peggy Roberts. Mr Hefin Closs Parry, Bryniol, Brynrefail. Mrs Nancy Jones, 79 Maes Padarn, Llanberis. Teulu y ddiweddar Mrs Muriel Lloyd, Pwllheli (32 Stryd Fawr, Llanberis gynt).

£5: Mr Eurwyn Pritchard, 1 Bro Rhos, Bethel. Mrs Gaynor Williams, Penterfyn, Llanrug. Mrs S. E. Thomas, Min y Rhos, Llanrug. Mrs M. Owen, Stad Tref Eilian, Waunfawr. Mrs Jane Roberts, 24 Bro Waun, Waunfawr. Mr Myrddyn Pritchard, 1 Ffordd Padarn, Llanberis.

£3: Iwan Jones, 12 Llainwen Isaf, Llanberis.

THE PANNIER 50 STRYD FAWR LLANBERIS

Ffôn: 870301

DEWCH ATOM AM
FRECHDANAU A
BYRBRYDAU FFRES
A WNEIR AR EICH CAIS

Ar agor Mawrth — Sadwrn
9 a.m. - 4 p.m.

DERBYNNIR ARCHEBION
DROS Y FFÔN

CANOLFAN FFITRWYDD P.C. Hen Safle Marconi Waunfawr (01286) 650011

- ★ OFFER RHAGOROL ★
- ★ YSTAFELLOEDD NEWID ★
- ★ CAWODYDD ★
- ★ TALU WRTH Y DRWS ★
- ★ DIM ANGEN CADW LLE ★

ORIAU AGOR:

11 a.m. - 9 p.m. Llun - Gwener
10 a.m. - 9 p.m. Penwythnosau

PRISIAU:

1 sesiwn £3 10 sesiwn £25
Tocynnau 6 a 12 mis ar gael

PRYD I BAWB

Bwffe at bob achlysur

Bwffe blasus o safon ar gyfer

CINIO BUSNES

CINIAWAU ACHLYSURON ARBENNIG
MEGIS BEDYDD NEU BEN-BLWYDD
PRIODAS

TE PRYNHAWN : TE ANGLADDAU

yn eich lleoliad chi neu yn ein tŷ fferm ni

CERID MACKINNON

(01286) 673190

neu (0374) 925502



CHWARAEON

Marc yn dringo'r cynghreiriau



Marc gyda rheolwr Caer Efrog Neil Thompson ynghyd â Chris Fairclough a arwyddwyd yr un pryd.

Cafodd yr Eco sgŵp yn ddiweddar, diolch i raglen radio Dylan Llywelyn. Roeddwn i'n digwydd bod yn ŵr gwadd ar y rhaglen a chefais gyfle i roi cyfweiliad i Marc y noson y cafodd ei drosglwyddo o glwb Halifax i Ddinas Caer Efrog. Roedd Marc mewn gwesty yng Nghaer Efrog ac wedi cytuno ar delerau gyda'i glwb newydd y prynhawn hwnnw. Roedd Marc ar ei ennill am sawl rheswm. Mae'r cytundeb tair mlynedd a hanner yn rhoi sylfaen ariannol fwy diogel iddo. Mae'n gwella ei safon, gan fod Caer Efrog yn yr ail adran. Ond mae brwydr yn wynebu'r tîm yr wythnosau nesaf yma gan fod perygl iddo ddisgyn i'r drydedd adran ddiwedd y tymor. Mae Marc yn hyderus na fydd hynny'n digwydd. Byddai'n eironig iawn pe disgynnai Caer Efrog a Halifax yn esgyn o'r drydedd adran i'r ail. Mae Marc yn falch fod rheolwr Caer Efrog wedi ei sicrhau mai fel blaenwr y bydd yn chwarae dros dîm Cilgaint Bootham. Nid oedd Marc yn hapus o gael ei symud i safle amddiffynnol yn nhîm Halifax. Mae wedi gweithio'n galed ar ei ffitrwydd

Cymru! Cymru!

Rwy'n gwrandao ar 'Post Prynhawn' wrth sgwennu'r erthygl hon a newydd glywed y newyddion mai yn Anfield y bydd y gêm Euro 2000 rhwng Cymru a Denmarc. Ni lwyddodd y Welsh FA i sicrhau mai yng Nghaerdydd y chwarae'r y gêm bwysig hon. Bydd penderfyniad UEFA yn siŵr o arwain at ddadlau mawr. Gall y gêm fod yn dyngedfennol i ddyfodol pêl-droed Cymru. Erbyn i chi ddarllen y geiriau hyn byddwch yn gwybod canlyniad y gêm yn y Swistir. Yr hyn sy'n bwysig bellach yw ein bod yn rhoi'r gefnogaeth orau posibl i'r tîm. Bydd llawer o aelodau'r Welsh FA yn edrych yn fanwl ar y gefnogaeth a gaiff y gêm gennym ni yn y gogledd. Os ydym am ddenu gemau rhyngwladol yn ôl i gartref pêl-droed y gogledd — Y Cae Ras yn Wrecsam — mae'n rhaid cael cefnogaeth rymus, a swmlyd, yn Anfield ym mis Mehefin. Awn ati ar unwaith i drefnu bysus i gario'r cannoedd a'r miloedd i Lerpwl. Roedd mwyr o Albanwyr na Chymry — yn ôl y swm beth bynnag — yn y gêm Jordanaidd honno ers talwm. Dyma'n cyfle mawr!

ac mae ei gyflymdra yn rhan gynhennid o'i gêm. Roedd ei berfformiad da dros dîm 'B' Cymru wedi denu sylw. Mae'n amlwg yn ysgu am gyfle i chwarae pêl-droed ar y safon uwch yma, a gobeithio y caiff wireddu ei uchelgais o gael ei ddewis i garfan lawn Cymru. Mae'n dal i obeithio parhau â'i gwrs coleg ym maes physiotherapi yn Salford. Trefnir y cwrs hwn gan Undeb y Chwaraewyr i baratoi chwaraewyr pêl-droed erbyn yr amser y bydd eu gyrfa wedi dod i ben. Un o'r rhai sydd wedi dilyn y cwrs yw Norman Whiteside. Dymunwn pob llywddiant i Marc wrth i'w yrfa

Ydi Llanber am ennill Cynghair Fitlock eleni? Gyda'r tymor yn dirwyn i ben mae'r pwyntiau ganddynt wedi rhediad da yn ddiweddar. Os mai Llanberis fydd y pencampwr, a fydd y clwb yn mentro i'r Cymru Alliance? Bydd angen cryn wariant ar gae Ffordd Padarn os gwneir hynny, a beth fyddai'r sefyllfa gyda llifoleuadau? Daw sawl cwestiwn i'm meddwl wrth edrych ar Gynghair Fitlock eleni. A hithau'n ddiwedd Mawrth, pam nad yw YMCA Bae Colwyn (sydd â gobaith o ennill y bencampwriaeth) ond wedi chwarae wyth gêm cynghrair? A dim ond 9 gêm cynghrair y mae Llanfairpwll wedi eu chwarae hefyd. A fu'r gaeaf mor wlyb â hynny? Neu a oes yna ormod o gystadlaethau cwpan? Mae'n ddiddorol sylwi hefyd ar safle uchel Llangefni ac Amlwch yn y gynghrair. Cofiwch hefyd bod

ddatblygu. Llanbêr, Porthmadog, Bangor, Stockport, Halifax, Caer Efrog — hwyf fawr i ti Marc.

Ar yr un rhaglen gofynnwyd i mi sôn am y chwaraewr lleol mwyaf disglair a welais a Gwilym Williams, cyn-asgellwr Llanbêr a ddewisais. Cyfeiriais at ei ffyddlondeb i'w glwb ac at ambell berfformiad gwyb, yn enwedig pan gurodd Llanbêr dîm da'r Coleg Normal 4-2 yn ffeinal yr Alves yn 1970. Un cwestiwn na allwn ei ateb oedd sawl gêm chwaraeodd yr asgellwr dawnus hwn dros y Darans.

O.N.: Sgoriodd Marc ddwy gôl i'w dîm newydd dros y Sul.

Syllu ar dabl

Glantraeth, Cemaes a Chaergybi ymhlith wyth uchaf yr Alliance. Ydi cryfder pêl-droed lleol wedi croesi'r Fenai o Arfon i Fôn? Ond dyna Gynghrair Gwynedd wedyn, efo'r tri thîm o Fôn — Llangefni, Caergybi a Llandegfan ar y gwaelod. Ac o sôn am y gwaelodion, sylwch mai ar waelod tabl y Fitlock y mae Bangor a'r Rhyl, dau glwb y mae eu prif dimau yn y Gynghrair Genedlaethol. Ai dyna pam nad yw'r 'reserves' byth yn cael cyfle yn y tîm cyntaf, a bod rhaid i'r clybiau hyn fynd y tu allan i'r fro i arwyddo chwaraewyr? Oes, mae sawl cwestiwn diddorol yn codi wrth syllu ar dabl!

Nostalgia a thipyn o wybodaeth

Chwaraeais fy gêm swyddogol gyntaf dros Glwb Criced Bangor yn 13 mlwydd oed ddydd Sadwrn, 2 Mai 1962. Byddai'n ddiddorol gwybod sawl gêm a ddilynodd ers hynny. Gwn i mi chwarae o leiaf fil o gemau dros y Clwb.

Y peth diddorol am y gêm gyntaf honno oedd mai Ysgol Friars oedd y gwrthwynebwyr, a chwaraewyd y gêm ar faes criced yr ysgol yn Ffriddoedd. Wrth gyfeirio at eu 'maes criced', sôn yr wyf am sgwâr criced ac arno bedwar llain. Ymhen ychydig fisoedd bydd Ysgol Friars yn cau a bydd yr holl ddisgyblion wedyn yn cael eu haddysg ar safle'r Ysgol yn Eithinog.

Ffaith diddorol arall yw mai ar brynhawn Sadwrn yr oedd y gêm. Dechrau am ddau o'r gloch, te rhwng y ddau fatiad, a gorffen tua saith o'r gloch. Cofiaf i Ysgol Friars chwarae tua 25 o gemau y tymor hwnnw ac yr oedd y mwyafrif ohonynt ar brynhawn Sadwrn. Mae sawl rheswm pam na ellir cael y fath beth heddiw. Yn ein prif gemau, pêl-droed a rygbi, ychydig iawn o gemau ysgol sydd erbyn hyn. Pan oeddwn i yn yr ysgol roedd gennym gêm ysgol bob wythnos rhwng mis Hydref a mis Mawrth. Ac roedd y patrwm cyson hwn o gyd-deithio a chyd-chwarae yn creu balchder amlwg yn ein hysgol. Y gemau ysgol oedd y lle i wneud eich marc er mwyn cael eich dewis i dimau Arfon ac, yn y pen draw, hyd yn oed gyrraedd y treialon cenedlaethol. Golygai hyn ein bod yn cael gemau cystadleuol iawn, yn arbennig yn erbyn timau fel Ysgol Syr Hugh Owen oedd yn y cyfnod hwnnw yn magu nythaid o chwaraewyr cenedlaethol.

Ond pam y nostalgia? Mae rhai o'm cyd-chwaraewyr ym Mangor wrthi'n hel hen luniau o dimau criced y Friars ar gyfer arddangosfa erbyn diwrnod cau'r hen ysgol. Soniodd rhai wrthyf bod traddodiad criced yn Ysgol Brynrefail hefyd. Oes gan rai o'r cyn-ddisgyblion stori i'w hadrodd inni? Lle roedd y cae criced? Pwy fyddai'r gwrthwynebwyr? Oedd ambell seren yn y timau? Roedd dau o Ysgol Brynrefail gyda mi yn nhîm Sir Gaernarfon yn y chwedegau, sef Colin (Jones?) ac un arall a fu wedi hynny yn blismon ym Mae Colwyn. Yn nyddiau coleg roedd maes rhyfeddol Valaire Lambrecht yn destun llawer stori. Yn ddiweddarach aeth llawer i ganlyn Dic Parry i Fron Dinas, a dewiswyd Stuart Williams i dîm Cymru. Anfonwch eich storïau ataf, os gwelwch yn dda.

Buddugoliaeth y Merched



Llun: DEWI WYN, Pwllheli

Neidiodd pawb ar y bws yn barod am y daith i ben draw'r byd. Roedd y crysau wedi eu smwddio'n daclus, esgidiau pawb yn lân a gwalltiau pawb yn dwt.

Wedi cyrraedd cae rygbi Ysgol Glan-y-Môr roeddem yn edrych — a dim ond yn edrych — fel tîm proffesiynol!

Aeth pawb i'w safleoedd ac yng nghanol y distawrwydd roedd calonau pawb yn curo. Chwythwyd y chwiban. Cais i Frynrefail gan Diana Roberts! Wedi hynny cafwyd cais gan Kelly Williams a dwy gan Carol Jones. Roedd y tîm ar ben eu digon.

Taclodd Catrin Roberts a Jackie Gibbins yn ardderchog a rholiodd Siân Davies yn y mwd gyda gwên ar

ei hwyneb! Ond, wrth i'r bêl ddod allan o ochr y gelyn yn y sgrym dechreuodd y gawres, rhif 8 Glan-y-Môr, redeg am y llinell gais. Nia Watkin oedd yn ei hwynebu ond buasai wyneb penderfynol a phengliniau uchel rhif 8 yn ddigon i unrhyw un gamu o'r ffordd!

Wedi awr o fwd, taclo a phasio, chwythodd y dyfarnwr ei chwiban. 20-7 i Frynrefail. Ein buddugoliaeth gyntaf!

Ymlwybrodd pawb yn ôl i'r bws yn edrych ymlaen am gawod gynnes. Roedd ein crysau yn fwdlyd, ein esgidiau rygbi wedi trawsnewid eu lliw o ddu i frown a'n gwalltiau fel nythod brain! Ond pa waeth? Roeddem ni wedi ENNILL!

BETHAN WILLIAMS (BI. 13)